# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00-09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09:30

## 2 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 1

09:30-10:30 (Tudalennau 1 - 57)

Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

Rhian Davies-Rees, Pennaeth Tribiwnlysoedd Cymru

**CLA(5)-22-20 - Papur briffio**

**CLA(5)-22-20 - Papur 1** - Llythyr gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, 26 Mehefin 2020

**CLA(5)-22-20 - Papur 2** - Ail Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, 29 Mehefin 2020

**CLA(5)-22-20 - Papur 3** - Adroddiad Blynyddol Cyntaf Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, 9 Ebrill 2019

## 3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

10:30–10:35 (Tudalen 58)

**CLA(5)-22-20 – Papur 4** – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol drafft

**3.1 SL(5)568 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020**

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:35–10:40

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**4.1 SL(5)572 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 59 – 76)

**CLA(5)-22-20 – Papur 5** – Adroddiad

**CLA(5)-22-20 – Papur 6** – Rheoliadau

**CLA(5)-22-20 – Papur 7** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-22-20 – Papur 8** – Datganiad ysgrifenedig

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**4.2 SL(5)570 – Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 77 – 93)

**CLA(5)-22-20 – Papur 9** – Adroddiad

**CLA(5)-22-20 – Papur 10** – Rheoliadau

**CLA(5)-22-20 – Papur 11** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-22-20 – Papur 12** – Llythyr gan y Gweinidog Addysg at y Llywydd, 25 Mehefin 2020

4.3 **SL(5)573 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

(Tudalennau 94 – 113)

**CLA(5)-22-20 – Papur 13** – Adroddiad

**CLA(5)-22-20 – Papur 14** – Rheoliadau

**CLA(5)-22-20 – Papur 15** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-22-20 – Papur 16** – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 3 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-22-20 – Papur 17** – Datganiad ysgrifenedig

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

5.1 **SL(5)569 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2020**

(Tudalennau 114 – 124)

**CLA(5)-22-20 – Papur 18** – Adroddiad

**CLA(5)-22-20 – Papur 19** – Rheoliadau

**CLA(5)-22-20 – Papur 20** – Memorandwm Esboniadol

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

6.1 **WS-30C(5)162 – Rheoliad (UE) Rhif 2018/1724 Rheoliadau Rheoliad y Porth Digidol Unigol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 125 – 129)

**CLA(5)-22-20 – Papur 21** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-22-20 – Papur 22** – Sylwebaeth

6.2 **WS-30C(5)163 – Rheoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 130 – 135)

**CLA(5)-22-20 – Papur 23** – Datganiad ysgrifenedig

**CLA(5)-22-20 – Papur 24** – Sylwebaeth

## 7 Papurau i'w nodi:

**7.1 Llythyr gan Bennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru – Craffu ar reoliadau Llywodraeth Cymru a chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.**

(Tudalennau 136 – 137)

**CLA(5)-22-20 – Papur 25** – Llythyr gan Bennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, 3 Gorffennaf 2020

**7.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – gohebiaeth gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf**

(Tudalennau 138 – 139)

**CLA(5)-22-20 – Papur 26** – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 3 Gorffennaf 2020.

**7.3 Llythyr gan yr Aelod Seneddol Alex Chalk AS, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder – data ynghylch mynediad at gyfiawnder**

(Tudalennau 140 – 141)

**CLA(5)-22-20 – Paper 27** – Llythyr gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, 7 Gorffennaf 2020

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11:00

## 9 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru – trafod y dystiolaeth.

11.00-11.10

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd – trafod yr adroddiad drafft

11.10-11.20 (Tudalennau 142 – 174)

**CLA(5)-22-20 – Papur 28** – Adroddiad drafft

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach - trafod yr adroddiad drafft

11.20-11.30 (Tudalennau 175 - 201)

**CLA(5)-22-20 - Papur 29** - Adroddiad drafft

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth - trafod yr adroddiad drafft

11.30-11.40 (Tudalennau 202 - 209)

**CLA(5)-22-20 - Papur 30** - Adroddiad drafft

## 13 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru - trafod y materion allweddol

11.40-12.00 (Tudalennau 210 - 245)

**CLA(5)-22-20 - Papur 31** - Papur materion allweddol

**CLA(5)-22-20 - Papur 32** - Crynodeb o'r dystiolaeth

## 14 Diweddariad Brexit - fframweithiau cyffredin

12.00-12.10 (Tudalennau 246 - 262)

**CLA(5)-22-20 - Papur 33** - Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## Dyddiad y cyfarfod nesaf - i'w gadarnhau

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Tribiwnlysoedd Cymru
Welsh Tribunals

Llywydd / President

To:

Mick Antoniw MS, Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee

26 June 2020

Dear Mr Antoniw

**SECOND ANNUAL REPORT OF THE PRESIDENT OF WELSH TRIBUNALS**

I am pleased to send you my second annual report as President of Welsh Tribunals. It covers the period 1 April 2019 to 30 April 2020.

This year's report focuses on important issues relating to reform and how the Tribunals have begun to face the very significant challenges posed by the spread pf Coronavirus. A detailed assessment of the full impact of the pandemic upon the work of the Tribunals will obviously be an important topic for discussion in next year's report.

I am sorry that the report is being published some weeks later than I would have liked. A number of factors combined to make earlier publication difficult.

If there are any matters upon which you would like clarification or further information please feel free to contact me or Ms Rhian Davies-Rees, the head of the Welsh Tribunals Unit.

Yours Sincerely

Sir Wyn Williams
PRESIDENT OF WELSH TRIBUNALS

ebost ● e mail: President.WT.Williams@ejudiciary.net

Uned Tribiwnlysoedd Cymru ● Welsh Tribunals Unit
Llywodraeth Cymru●Welsh Government
Parc Cathays● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Tribiwnlysoedd Cymru
Welsh Tribunals
Llywydd / President

At:

Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

26 Mehefin 2020

Annwyl Mr Antoniw

**AIL ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU**

Mae'n bleser gennyf anfon fy ail adroddiad blynyddol atoch fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 30 Ebrill 2020.

Mae adroddiad eleni yn canolbwyntio ar faterion pwysig yn ymwneud â diwygio a'r ffordd y mae'r Tribiwnlysoedd wedi dechrau wynebu'r heriau sylweddol iawn sy'n codi yn sgil lledaeniad y Coronafeirws. Bydd asesiad manwl o effaith lawn y pandemig ar waith y Tribiwnlysoedd yn amlwg yn destun pwysig i'w drafod yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Mae'n ddrwg gennyf fod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi rhai wythnosau yn hwyrach na'r hyn y byddwn wedi ei ddymuno. Daeth nifer o ffactorau ynghyd i'w gwneud yn anodd cyhoeddi'n gynharach.

Os oes unrhyw faterion yr hoffech gael eglurhad neu wybodaeth bellach arnynt, mae croeso i chi gysylltu â mi neu â Ms Rhian Davies-Rees, sef pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

Yn gywir,

Syr Wyn Williams
LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

ebost ● e mail: President.WT.Williams@ejudiciary.net

Uned Tribiwnlysoedd Cymru ● Welsh Tribunals Unit
Llywodraeth Cymru●Welsh Government
Parc Cathays● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

# Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru
# Ail Adroddiad Blynyddol 2019-2020

30ain Ebrill 2020

Tribiwnlysoedd Cymru
Welsh Tribunals
Llywydd / President

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Diweddariadau yn dilyn yr Adroddiad Blynyddol Cyntaf | 4 |
| 3 | Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru | 6 |
| 4 | Effaith y Coronafeirws | 10 |

WG40863 ISBN digidol 978-1-xxxxxxxxxxxxxxx

# 1. Introduction

1.1 Ysgrifennaf yr adroddiad hwn ar adeg pan fo'r swyddogaeth gyfiawnder yn y DU wedi cael ei thrawsnewid gan ledaeniad y Coronafeirws. Mae ffyrdd o weithio a fyddai wedi ymddangos yn amhosibl i'r rhan fwyaf o Dribiwnlysoedd Cymru 8 wythnos yn ôl bellach yn cael eu hystyried a, lle y bo'n bosibl, eu mabwysiadu. Cyflawnwyd hyn i gyd gan ymdrechion holl aelodau'r tribiwnlysoedd, aelodau o staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru, y cyfreithwyr sydd bellach yn cynorthwyo'r Tribiwnlysoedd, gweision sifil Llywodraeth Cymru, Gweinidogion Cymru, deddfwyr ac, yn olaf ond nid y lleiaf, defnyddwyr y Tribiwnlysoedd a'u cynrychiolwyr. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob un ohonynt.

1.2 Roedd adroddiad blynyddol y llynedd yn cynnwys cryn dipyn o ddeunydd esboniadol am Ddeddf Cymru 2017, swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'r prosesau a ddefnyddir i recriwtio a phenodi aelodau o'r Tribiwnlysoedd. Roedd hefyd yn cynnwys adrannau ar wahân am nifer yr achosion yr ymdriniodd y tribiwnlysoedd unigol â nhw, y defnydd o'r Gymraeg mewn Tribiwnlysoedd a strwythur a chyllideb Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

1.3 Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn gyfrifol am weinyddu'r tribiwnlysoedd a nodir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 a gellir eu crynhoi'n hwylus fel a ganlyn:

- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (TTA Cymru)
- Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (TAIM Cymru)
- Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (TEP Cymru)
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)
- Panel Dyfarnu Cymru (PDC)
- Tribiwnlys y Gymraeg (TyG).

1.4 Yn yr adroddiad hwn, ni fyddaf yn ailadrodd y deunydd esboniadol yn fy adroddiad cyntaf. Mae'r ail adroddiad hwn, yn ei hanfod, wedi'i rannu'n dair adran. Yn gyntaf, byddaf yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr achosion yr ymdriniodd y Tribiwnlysoedd â nhw, y defnydd o'r Gymraeg a strwythur a chyllideb Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Yn ail, byddaf yn darparu gwybodaeth ac yn mynegi barn ar yr argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith i'r graddau y maent yn ymwneud â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru, a sut y gallai gwaith Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr daflu goleuni ar yr argymhellion hynny a'u datblygu. Yn drydydd, byddaf yn ystyried effaith y Coronafeirws a'r ffordd y mae arferion gwaith wedi newid o ganlyniad iddo, er, yn anochel, bydd darlun llawer mwy cyflawn yn dod i'r amlwg gyda threigl amser a buaswn yn disgwyl ymdrin â hyn yn fy nhrydydd adroddiad blynyddol.

# 2. Diweddariadau yn dilyn yr Adroddiad Blynyddol Cyntaf

2.1 Gwelir nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan Dribiwnlysoedd Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn y Tabl isod.

**Tabl 1: Nifer y ceisiadau i bob tribiwnlys gyda chanran y cynnydd/gostyngiad**

| Tribiwnlys | Blwyddyn Ariannol 2017-2018 | Blwyddyn Ariannol 2018-2019 | Blwyddyn Ariannol 2019-2020 | % y cynnydd/ gostyngiad | Ceisiadau a broseswyd yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| TTAC | 17 | 29 | 22 | -24 | 0 |
| TAIMC | 2028 | 2046 | 1943* | -5 | 3 |
| TEPC | 101 | 176 | 112 | -36 | 0 |
| TAAAC | 131 | 139 | 172 | +24 | 6 |
| PDC | 3 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| TYG | 4 | 3 | 16 | +443 | 16 |

* Yn hanesyddol roedd data am TAIM Cymru ar gyfer adroddiadau blynyddol yn cael eu hallgludo o nifer o ffynonellau (â llaw ac yn electronig).Yn 2019/20, cymerwyd y data am y ceisiadau a'r atgyfeiriadau a gafwyd o system rheoli cofnodion CRM TAIM Cymru gan ddileu'r risg o unrhyw wall dynol. O ganlyniad i'r newid hwn mewn dulliau adrodd, mae'n ymddangos fel pe bai nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau i TAIM Cymru wedi gostwng ond petai'r un fethodoleg wedi cael ei mabwysiadu mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n debyg y byddai nifer y ceisiadau a'r atgyfeiriadau yn debyg i rai 2019-20.

2.2 Ceir rhagor o wybodaeth am natur y gwaith a wnaed ac aelodaeth y tribiwnlysoedd yn eu hadroddiadau blynyddol unigol. Caiff pob adroddiad o'r fath ei gyhoeddi ar wefan pob tribiwnlys.

2.3 Ymddeolodd yr Athro Keith Bush CF o'i rôl fel Llywydd Uned Tribiwnlysoedd Cymru ar 31 Gorffennaf 2019. Cafodd Mr Iwan Jenkins ei benodi yn ei le gan y Prif Weinidog yn dilyn cystadleuaeth agored a weinyddwyd gan Gomisiwn Penodiadau Barnwrol Cymru a Lloegr. Mae Mr Jenkins yn uwch-gyflogai yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron Cymru a Lloegr ac mae ganddo gyfoeth o brofiad perthnasol yn ymwneud â gweithredu'r system gyfiawnder yng Nghymru.

2.4 Yn ystod y flwyddyn, penodwyd un aelod cyfreithiol i TyG yn dilyn cystadleuaeth agored a weinyddwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Mae cystadlaethau a weinyddir gan y Comisiwn hefyd wedi dechrau i recriwtio dau ddirprwy gadeirydd i TTA Cymru, aelodau cyfreithiol ac aelodau lleyg i TAIM Cymru ac aelodau o banel addysg ar gyfer TAAAC. Dylid nodi bod yr holl benodiadau cyfreithiol i Dribiwnlysoedd Cymru yn agored i ymarferwyr cyfreithiol sy'n ymarfer yn Lloegr yn ogystal â Chymru. Yn ei hanfod, mae hynny am fod pob ymarferydd cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i ymarfer yn y ddwy wlad.

2.5 Mae'r broses o benodi aelodau presennol o Dribiwnlys yng Nghymru i wasanaethu fel aelodau o Dribiwnlys arall wedi parhau. Mae 3 aelod cyfreithiol o Dribiwnlysoedd Cymru wedi'u nodi fel rhai a fyddai'n addas i wasanaethu fel aelodau o TAIM Cymru er mai dim ond dau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol ac wedi cael eu penodi. Mae dau aelod

cyfreithiol o Dribiwnlysoedd Cymru wedi cael eu penodi i wasanaethu fel aelodau o TEP Cymru ac mae un aelod cyfreithiol o'r Tribiwnlys Eiddo Haen Gyntaf yn Lloegr wedi cael ei benodi i wasanaethu fel aelod o TEP Cymru. Mae dau aelod lleyg o Dribiwnlysoedd Cymru wedi cael eu penodi i wasanaethu fel aelodau o TyG ac mae un aelod lleyg wedi cael ei benodi i wasanaethu fel aelod o PDC.

2.6 Yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20, cyhoeddwyd Cyfarwyddiadau Ymarfer a gymeradwywyd gan y Prif Weinidog yn unol ag adran 61 o Ddeddf Cymru 2017. Cyhoeddodd Llywydd PDC Gyfarwyddyd Ymarfer byr er mwyn rhoi arweiniad i'r rhai a oedd wedi cael eu hatgyfeirio at PDC am gamymddwyn honedig o ran cynnwys angenrheidiol y ffurflen ymateb y mae'n ofynnol i "unigolyn a gyhuddwyd" ei chwblhau. Cyhoeddodd Llywydd TAIM Cymru a minnau Gyfarwyddyd Ymarfer ar y cyd yn ymdrin ag agweddau amrywiol ar y weithdrefn a oedd yn arwain at wrandawiadau gerbron TAIM Cymru.

2.7 Yn ystod mis Mehefin 2019, symudodd TEP Cymru a TyG o'u swyddfeydd yn Nhŷ Southgate yng Nghaerdydd i safle ym Mharc Cleppa ar gyrion Casnewydd, gan rannu'r swyddfeydd hyn â'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS CYMRU). Mae'r broses symud wedi bod yn llwyddiannus. Mae digon o le yn y swyddfeydd ym Mharc Cleppa ar gyfer staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru sy'n cefnogi TEP Cymru a TyG. Mae swyddfeydd ar gyfer Llywyddion y tribiwnlysoedd hynny hefyd yno ac ystafell fawr y gellir ei defnyddio ar gyfer gwrandawiadau a chyfarfodydd tribiwnlysoedd. Mae cyfleusterau fideogynadledda a chynadledda dros y ffôn ar gael hefyd.

2.8 Bwriedir adleoli staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru sy'n gweithio mewn swyddfeydd yn Llandrindod i swyddfeydd a adnewyddwyd yn adeilad presennol Cyngor Sir Powys yn y dref. Defnyddir swyddfeydd presennol Uned Tribiwnlysoedd Cymru fel pencadlys TAAAC, TTA Cymru a PDC ac mae ystafell o faint digonol yno y gellir ei defnyddio i gynnal gwrandawiadau. Ni fydd ystafell benodol ar gyfer cynnal gwrandawiadau yn y swyddfeydd newydd ond ni fyddai'n briodol cynnal gwrandawiadau mewn adeilad y mae Cyngor Sir Powys yn berchen arno ac yn ei ddefnyddio'n rhannol beth bynnag, o ystyried y gall fod yn rhan o achosion unigol weithiau. Bydd ystafelloedd cyfarfod yn y swyddfeydd newydd y gall aelodau'r tribiwnlysoedd eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi ac mae lle priodol ar gyfer staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Ar ôl cwblhau'r broses symud, gwrandewir achosion a gyflwynir gerbron TAAAC, TTA Cymru a PDC lle mae angen cynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau sy'n diwallu anghenion y partïon ac aelodau'r tribiwnlysoedd. Bwriedir dechrau ar y gwaith o adnewyddu swyddfeydd Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn adeilad Cyngor Sir Powys ddechrau mis Mehefin 2020 a disgwylir gorffen y gwaith tua diwedd 2020. Bydd y staff yn symud yn fuan wedyn ar ddechrau 2021. Fodd bynnag, mae'n amlwg ei bod yn bosibl y bydd cyfyngiadau a roddir ar waith o ganlyniad i'r Coronafeirws yn effeithio ar yr amserlen hon.

2.9 Ym mlwyddyn ariannol 2019-20, pennwyd cyllideb o £4,148m ar gyfer Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Y swm a gafodd ei wario yn ystod y flwyddyn mewn gwirionedd oedd £4,446m (roedd y ffigur hwn yn cynnwys £42,000 a drosglwyddwyd o Is-adran y Gymraeg i dalu am gostau rhedeg gwirioneddol TyG). Tua diwedd y flwyddyn, cafodd Uned Tribiwnlysoedd Cymru £250,000 o gyllid ychwanegol gan Is-adran Cyllid Llywodraeth Cymru. Gwnaed y ddarpariaeth hon cyn i effaith y Coronafeirws ddod i'r amlwg.

2.10 Nid yw'r gyllideb ar gyfer 2020-21 wedi'i chytuno eto. Fodd bynnag, cynhaliwyd trafodaethau rhwng UTC a Thrysorlys Cymru ynghylch cynyddu ei ddyraniad o ystyried y gorwariant sylweddol yn 2019-20.

2.11 Mae'n rhy gynnar i bennu beth fydd effaith ariannol y Coronafeirws ar gyllideb y Tribiwnlysoedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Fodd bynnag, mae pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru a'i huwch-aelodau o staff yn rheoli gwariant y gyllideb yn ofalus er mwyn canfod a fydd angen cyllid ychwanegol o ganlyniad i'r feirws.

2.12 Mae pob Tribiwnlys yn parhau i gynnig gwasanaeth Cymraeg llawn i'w ddefnyddwyr yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd gan yr hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

2.13 Er nad yw PDC yn ddarostyngedig i'r Safonau, mae'n gweithredu yn unol â'r tribiwnlysoedd eraill ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n debygol y bydd PDC yn ddarostyngedig i'r Safonau yn y dyfodol agos.

2.14 Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar y gwasanaeth Cymraeg yn isel o hyd. Rwyf ar ddeall bod cofnodion a gedwir gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn dangos y cafodd y Gymraeg ei defnyddio mewn 9 achos ar draws yr holl Dribiwnlysoedd ac eithrio TyG yn 2019-20.

2.15 Ar 10 Gorffennaf 2019, cyfarfûm â'r Prif Weinidog ar gyfer ein cyfarfod blynyddol. Roedd y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn bresennol ynghyd â nifer o weision sifil Llywodraeth Cymru a phennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Roedd y drafodaeth yn eang ei chwmpas, ond roedd yn cynnwys pynciau megis strwythur ffioedd teg i aelodau cyfreithiol Tribiwnlysoedd Cymru, penodi cyfreithiwr neu gyfreithwyr sydd â rôl benodol mewn perthynas â Thribiwnlysoedd Cymru a'r posibiliadau ar gyfer diwygio strwythur Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'n bleser gennyf nodi, o fewn wythnosau i'r cyfarfod, fod y Prif Weinidog wedi cytuno ar strwythur ffioedd diwygiedig ar gyfer aelodau cyfreithiol y Tribiwnlysoedd ac, ym mis Chwefror eleni, cafodd dau gyfreithiwr a gyflogir gan Lywodraeth Cymru y rôl benodol o ddarparu cyngor a chymorth cyfreithiol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru (a, thrwy'r Llywydd, yr arweinwyr barnwrol) ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Rwy'n fodlon bod gennym strwythur effeithiol erbyn hyn lle gellir ceisio a chael cyngor cyfreithiol pan fo angen ac rwyf i ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru eisoes wedi cael cyngor gwerthfawr yn ystod y cyfnod heriol iawn ers i'r cyfreithwyr gael eu penodi. Er gwaethaf y trafodaethau adeiladol a gynhaliwyd am yr angen i ddiwygio strwythur Uned Tribiwnlysoedd Cymru, ni wnaed unrhyw gynnydd eto o ran sicrhau diwygiad o'r fath. Byddaf yn ymhelaethu ar hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

2.16 Roedd y Prif Weinidog a minnau wedi gobeithio y byddai Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr wedi dechrau ei brosiect i ddiwygio Tribiwnlysoedd Cymru rai misoedd cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Ni fu hynny'n bosibl (am resymau da iawn y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn mae'n siŵr). Rwyf ar ddeall bod y Comisiwn wedi dechrau gweithio ar ei brosiect yn ddiweddar neu ei fod ar fin dechrau ei waith. Mewn un ffordd, y byddaf yn ei thrafod isod, mae'n bosibl y bydd yr oedi cyn dechrau'r prosiect hwn yn cael effaith ganlyniadol dra sylweddol.

# 3. Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

3.1 Ar 24 Hydref 2019, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad. Roedd ei gynnwys yn eang iawn ei gwmpas. Ei argymhelliad craidd oedd y "dylai cyfiawnder gael ei ddatganoli" i'r Senedd ac roedd cyfanswm o 78 o argymhellion. Mae'n debyg y bydd y darllenydd yn gwybod fy mod i'n un o'r Comisiynwyr ond, yn yr adroddiad blynyddol hwn, fy unig nod yw ceisio tynnu sylw at yr agweddau hynny ar adroddiad y Comisiwn sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Thribiwnlysoedd Cymru, swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'r cymorth gweinyddol a roddir i'r Tribiwnlysoedd a'r Llywydd gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Hoffwn gyfeirio'n benodol at 3 o argymhellion y Comisiwn.

3.2 Mae **Argymhelliad 22** yn darparu y “Dylai’r llysoedd a’r tribiwnlysoedd sy’n dyfarnu ar anghydfodau ym meysydd cyfraith sifil a gweinyddol fod o dan un system unedig yng Nghymru”.

3.3 Er nad yw’r adroddiad yn dweud hynny’n benodol, mae’n ymhlyg yn yr argymhelliad hwn mai dim ond os caiff y swyddogaeth gyfiawnder ei datganoli’n sylweddol i Gymru y gellir cyflawni hyn. Yn hyn o beth, byddai angen deddfwriaeth sylweddol gan Senedd y DU er mwyn rhoi’r argymhelliad hwn ar waith.

3.4 Mae **Argymhelliad 25** yn darparu y “Dylai pob corff cyhoeddus, ombwdsmon a thribiwnlys arall a sefydlwyd o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru sy’n gwneud penderfyniadau barnwrol neu led-farnwrol ac nad yw’n cael ei oruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael ei ddwyn o dan oruchwyliaeth y Llywydd.”

3.5 Mae **Argymhelliad 27** yn darparu y “Dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru fod yn annibynnol yn strwythurol a dylid defnyddio Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer datrys anghydfodau ynglŷn â deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol.”

3.6 Mae’n debyg y byddai rhywfaint o ddeddfwriaeth gan Senedd y DU yn ymwneud â’r ddau ddiwygiad hyn hefyd neu byddai’n rhaid diwygio deddfwriaeth a ddeddfwyd eisoes gan Senedd y DU o leiaf. Nod unrhyw ddeddfwriaeth newydd o’r fath a diwygiadau o’r fath a fyddai’n angenrheidiol er mwyn rhoi’r argymhellion ar waith fyddai hwyluso gwaith sefydliadau sydd eisoes yn bodoli ac sy’n gweithredu yng Nghymru yn unig. Wedi dweud hynny, nid wyf mewn unrhyw sefyllfa i farnu a fyddai gwrthwynebiad i’r ddeddfwriaeth angenrheidiol o fewn Senedd y DU neu gan bobl eraill ac ni fyddai’n briodol imi ddyfalu ynghylch materion o’r fath.

3.7 Fodd bynnag, mae’n ymddangos yn amlwg i mi bod gan agweddau ar y ddau argymhelliad hyn y potensial, yn anochel, i gynyddu gwaith rhai o Dribiwnlysoedd Cymru yn sylweddol iawn. Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol ym meysydd iechyd, addysg, tai ac amaethyddiaeth. Os bydd yr holl anghydfodau ynglŷn â deddfwriaeth yn y dyfodol yn y meysydd hyn o’r gyfraith yn cael eu penderfynu gan Dribiwnlysoedd Cymru (fel yr argymhellir yn **Argymhelliad 27**) mae’n anochel y bydd cynnydd mawr yn llwyth gwaith y tribiwnlysoedd. Er enghraifft, mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sydd wedi cael ei deddfu ond nad yw mewn grym eto, yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â gosod tai annedd sy’n wahanol i gyfraith bresennol Cymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae’r Ddeddf yn darparu y dylai anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid sy’n codi o dan y Ddeddf gael eu datrys yn y llys sirol. Fodd bynnag, rwyf ar ddeall bod y Ddeddf yn cael ei hadolygu cyn iddi ddod i rym. Os bydd yr argymhelliad y dylai anghydfodau sy’n codi o dan y Ddeddf gael eu datrys gan TEP Cymru yn cael ei dderbyn a’i ymgorffori yn y Ddeddf, byddai llwyth gwaith y Tribiwnlys hwnnw’n cynyddu’n sylweddol. Yn yr un modd, gallai llwyth gwaith TAAAC a TTA Cymru gynyddu’n sylweddol os byddai anghydfodau sy’n codi o dan ddeddfwriaeth yn y dyfodol ym meysydd addysg ac amaethyddiaeth yn cael eu cyfeirio i’r tribiwnlysoedd hynny.

3.8 Rwyf hefyd o’r farn y byddai agweddau pwysig ar yr argymhellion yn trawsnewid rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Ar hyn o bryd, gwelir y sail statudol dros swydd y Llywydd yn adran 60 o Ddeddf Cymru 2017. Dylid nodi bod yr adran yn darparu’n benodol nad yw’r Llywydd yn awdurdod sydd wedi’i ddatganoli i Gymru at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Dyluniwyd cwmpas y swydd fel y gall Barnwr Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr sydd mewn swydd ymgymryd â hi fel rhan o’i ddyletswyddau fel barnwr mewn swydd neu fel y gall Barnwr Uchel Lys sydd wedi ymddeol cyn yr oedran ymddeol gorfodol, sef 70 oed, ymgymryd â hi. Er mwyn rhoi rhywfaint o arweiniad o ran gofynion y rôl ar hyn o bryd, fel Barnwr Uchel Lys sydd wedi ymddeol, mae dyletswydd arnaf o dan Ddeddf 2017 i ymroi’r hyn sy’n cyfateb

i o leiaf 20 diwrnod gwaith y flwyddyn i'r Llywyddiaeth ac, yn ymarferol hyd yn hyn, bu angen imi ymroi yr hyn sy'n cyfateb i 25 i 30 diwrnod y flwyddyn i'r rôl (er bod y gwaith sydd angen ei gyflawni wedi'i rannu mewn ffordd sy'n golygu bod yn rhaid imi ei wneud am rai rhannau o ddyddiau y rhan fwyaf o wythnosau). Os daw'r Llywydd yn gyfrifol am oruchwylio'r holl gyrff sy'n gweithredu yng Nghymru'n unig, fel y nodwyd gan y Comisiwn yn **Argymhelliad 25**, bydd rôl y Llywydd yn cynyddu'n sylweddol a bydd y cynnydd posibl hwn yn llwyth gwaith y Llywydd yn fwy fyth os bydd gan y Llywydd rôl yn y materion a grybwyllir yn y paragraff nesaf.

3.9 Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn adroddiad y Comisiwn sy'n ymwneud â phenodiadau i Dribiwnlysoedd Cymru, prosesau disgyblu mewn perthynas ag aelodau'r tribiwnlysoedd ac apeliadau gan y tribiwnlysoedd. Yn ei hanfod, mae hyn am fod y Comisiynwyr yn gwybod y byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried gan Gomisiwn y Gyfraith. Rwyf wedi cynnal trafodaethau rhagarweiniol gyda'r cyfreithwyr yng Nghomisiwn y Gyfraith a fydd yn bwrw ymlaen â'r prosiect ac mae'n amlwg y byddant yn archwilio'r materion hyn yn fanwl ynghyd â'r rôl y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ei chwarae mewn perthynas â nhw, os bydd ganddo rôl o gwbl. Fodd bynnag, fel y dywedais, os bydd Comisiwn y Gyfraith yn penderfynu y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael rôl mewn rhai o'r materion hyn, neu ynddynt i gyd, ac os caiff argymhelliad o'r fath ei wireddu, bydd llwyth gwaith y Llywydd yn cynyddu'n sylweddol.

3.10 Ar hyn o bryd, gall y prif dasgau a gyflawnir gan y Llywydd gael eu categoreiddio'n fras fel rhai gweinyddol a rhai bugeiliol. Er y derbynnir yn gyffredinol bod gan y Llywydd yr hawl i eistedd fel barnwr ar Dribiwnlysoedd Cymru, nid oes sail statudol glir sy'n cefnogi'r casgliad hwn ac, yn ymarferol, nid oes unrhyw reswm bod y Llywydd (ac eithrio ar un achlysur pan na wnaeth ddwyn ffrwyth) yn eistedd ar dribiwnlys. Yn fy marn i, mae posibilrwydd o leiaf y bydd diffyg rôl farnwrol ffurfiol a phenodol ar gyfer y Llywydd yn gwneud i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer y swydd yn y dyfodol beidio â mynd amdani. Yn unol â hynny, byddwn yn argymell y dylid ystyried yn ofalus y syniad o greu rôl farnwrol benodol i'r Llywydd. Fel y gŵyr y rhai a ddarllenodd fy Adroddiad Blynyddol cyntaf (gweler Adran 2), mae gennyf amheuon ynghylch y Llywydd yn eistedd ar Dribiwnlysoedd Cymru ac eithrio pan fo Arweinydd Barnwrol Tribiwnlys penodol a'r Llywydd yn cytuno bod amgylchiadau achos penodol yn golygu y byddai'n amhriodol i'r Arweinydd Barnwrol eistedd fel cadeirydd y Tribiwnlys. Fodd bynnag, os ystyrir bod angen cael strwythur apeliadol newydd ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru, gellid rhoi rôl benodol i'r Llywydd o fewn y strwythur hwnnw. At hynny, a/neu fel arall, gellid awdurdodi'r Llywydd i eistedd ar y Llys Gweinyddol yng Nghymru. Er, yn ymarferol, y gallai Barnwr Uchel Lys sydd mewn swydd neu sydd wedi ymddeol eistedd yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru o bryd i'w gilydd, nid yw hyn wedi'i warantu. Yn fy marn i, byddai'n cyfoethogi rôl y Llywydd petai'n cael ei enwebu i eistedd yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru am mai ef yw'r Llywydd.

3.11 Tan yn ddiweddar, roedd wedi ymddangos yn synhwyrol caniatáu i Gomisiwn y Gyfraith arwain wrth wneud awgrymiadau ac argymhellion ar gyfer diffinio rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ymhellach. Fodd bynnag, gan dybio y bydd prosiect Comisiwn y Gyfraith yn para oddeutu 12 mis (fel y rhagwelir), mae'n bosibl na fydd ei gynigion terfynol yn cael eu cyhoeddi tan ychydig cyn i fy nghyfnod yn y swydd ddod i ben.

3.12 Yn unol â hynny, rwyf wedi dod i'r casgliad ein bod yn prysur agosáu at yr amser pan fo ailarfarnu swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn llwyr yn ddymunol, yn gwbl annibynnol ar waith Comisiwn y Gyfraith os oes angen, fel y gellir dechrau cynllunio mewn da bryd i ddod o hyd i'm holynydd. Er na fydd fy nghyfnod yn y swydd yn dod i ben tan 13 Awst 2021 ac er bod darpariaethau statudol y gellid eu galw i rym a fyddai'n caniatáu i'r Arglwydd Brif Ustus ymestyn fy nghyfnod yn y swydd petai o'r farn bod hynny er budd y cyhoedd, mae'n bwysig, y fy marn i, bod penderfyniadau am y rôl y disgwylir i Lywydd Tribiwnlysoedd

Cymru ei chyflawni yn y byrdymor i'r tymor canolig yn cael eu gwneud dros y misoedd nesaf. Yn amlwg, mater i Gomisiwn y Gyfraith fydd penderfynu a all roi ei sylw ar unwaith i'r rhan hon o'i brosiect, neu a ddylai wneud hynny.

3.13 O dan Ddeddf Cymru 2017, yr Arglwydd Brif Ustus yw'r awdurdod penodi ar gyfer swydd y Llywydd. Ystyriaf ei bod yn rhan o'm dyletswydd fel Llywydd i'w hysbysu am yr holl ddatblygiadau a allai effeithio ar rôl y Llywydd, neu a fydd yn effeithio arni, wrth iddynt ddatblygu dros y misoedd nesaf. Yn ogystal, wrth gwrs, bydd cyfle gennyf i drafod â'r Prif Weinidog yn ystod ein cyfarfod blynyddol, swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau Comisiwn y Gyfraith.

3.14 Rhaid archwilio rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru hefyd yng ngoleuni argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru "fod yn annibynnol yn strwythurol" ar Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n gweithredu ym mhob un o wledydd cyfansoddol y Deyrnas Unedig yn cael eu gweinyddu'n wahanol. Yng Ngogledd Iwerddon, asiantaeth a grëwyd gan Weinyddiaeth Gyfiawnder Gogledd Iwerddon yw'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd. Mae gan yr asiantaeth fwrdd gweithredol lle mae gan farnwyr rôl bwysig ond nid yw cadeirydd y bwrdd yn farnwr. Caiff llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru a Lloegr (ac eithrio Tribiwnlysoedd Cymru fel y diffiniwyd yn Neddf 2017) eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Asiantaeth gyda bwrdd gweithredol yw'r gwasanaeth hwn hefyd. Mae gan farnwyr llysoedd a thribiwnlysoedd rôl sylweddol ar y bwrdd. Corff corfforedig annibynnol yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban a chaiff ei fwrdd gweithredol ei gadeirio gan yr Arglwydd Lywydd (barnwr uchaf yr Alban). Yn adroddiad blynyddol y llynedd, mynegais y farn y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael yr un statws â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Pan siaradais â'r Prif Weinidog ym mis Gorffennaf, ni chafodd y mater o roi'r statws i Uned Tribiwnlysoedd Cymru ei ddatrys. Fodd bynnag, yr hyn sy'n glir yw ni waeth pa strwythur sy'n ymddangos yng Nghymru ar gyfer Uned Tribiwnlysoedd Cymru, mae'n bosibl y bydd gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru rôl sylweddol i'w chwarae os ydym am gyflawni'r argymhelliad o "fod yn annibynnol yn strwythurol". Yn fy marn i, mae hwn yn rheswm arall eto pam y dylid ystyried rôl y Llywydd yn ofalus yn y dyfodol agos.

3.15 Hyd yn oed os gwneir y penderfyniad i aros am argymhellion terfynol Comisiwn y Gyfraith cyn ceisio diffinio rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ymhellach, rwy'n gwbl sicr y dylai'r swyddogion priodol yn Llywodraeth Cymru a Gweinidogion priodol Cymru ddechrau llunio eu cynigion eu hunain am y Llywyddiaeth cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol fel y gellir cynorthwyo Comisiwn y Gyfraith cymaint â phosibl ar y mater hwn.

3.16 Ers cyhoeddi Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder, rwyf wedi cyfarfod â Llywydd a Phrif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru er mwyn trafod y posibilrwydd o ychwanegu'r Tribiwnlys Prisio at y tribiwnlysoedd a restrir fel Tribiwnlysoedd Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017 a thrwy hynny ei wneud yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Roedd y trafodaethau ar gam cynnar pan ddaeth pandemig y Coronafeirws â'r cyfan i stop. Fodd bynnag, roedd y trafodaethau'n adeiladol ac nid oedd y Tribiwnlys Prisio yn gwrthwynebu'r syniad o ymuno â'r teulu o Dribiwnlysoedd Cymru mewn egwyddor. Rwyf hefyd wedi cyfarfod ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn trafod ei farn am **Argymhelliad 25** i'r graddau y mae'n berthnasol iddo ef. Mynegodd y farn glir nad oedd sail briodol yn bodoli dros wneud yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Roeddwn o'r farn bod ei safbwyntiau'n argyhoeddiadol ond rwy'n siŵr y cânt eu hystyried yn ofalus gan Gomisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru ac uwch-weision sifil yn Llywodraeth Cymru.

3.17 Yn olaf, mewn perthynas â diwygio, mae Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd wedi lansio ymchwiliad i "*Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru*". Rwyf wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ac wedi derbyn y gwahoddiad hwn. Er fy mod yn edrych ymlaen at y cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, rhaid cyfaddef fy mod yn teimlo rhywfaint yn anesmwyth o ystyried fy mod wedi treulio'r rhan fwyaf o fy mywyd proffesiynol yn gofyn cwestiynau yn hytrach na'u hateb!

# 4. Effaith y Coronafeirws

4.1 Mae'n rhaid i Dribiwnlysoedd Cymru ddygymod â chyfnod o darfu ar eu harferion gwaith ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen. I bob pwrpas, mae'r cyfyngiadau symud a osodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi golygu na ellid cynnal gwrandawiadau traddodiadol lle byddai aelodau'r tribiwnlys a'r partïon yn dod ynghyd mewn un ystafell. Ers 23 Mawrth 2020, ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau o'r fath; yn hytrach, mae gwaith y mae'r tribiwnlysoedd wedi llwyddo i ymgymryd ag ef wedi cael ei wneud, naill ai drwy gyfeirio at dystiolaeth ysgrifenedig a chyflwyniadau ysgrifenedig yn unig neu drwy gynnal gwrandawiadau "o bell".

4.2 Mae'r sefyllfa wedi amharu'n ddifrifol ar waith TTA Cymru gan na all y Tribiwnlys restru unrhyw achosion lle mae angen archwiliadau safle (ac mae angen gwneud hynny gyda'r rhan fwyaf ohonynt) tan fis Gorffennaf 2020 ar y cynharaf, pan fydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu. Caiff gwrandawiadau cyfarwyddo a gwrandawiadau lle ceisir cymeradwyaeth ar gyfer gorchmynion cydsynio eu cynnal drwy gynadledda dros y ffôn.

4.3 Mae'r sefyllfa wedi amharu ar waith TEP Cymru hefyd. Mae gan ymweliadau safle ran i'w chwarae mewn rhai o'r penderfyniadau a wneir gan y Tribiwnlys hwn ac, mewn llawer o'r achosion lle mae ymweliadau safle yn angenrheidiol, byddai'n anodd iawn cadw pellter cymdeithasol, os nad yn amhosibl. Wedi dweud hynny, mae TEP Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o gynnal gwrandawiadau o bell a thros y ffôn pan fo hynny'n gyson â'r rheolau gweithdrefnol sy'n llywodraethu gwaith y Tribiwnlys hwn.

4.4 Nifer bach o achosion sydd gan TyG a PDC. Gellir lleihau'r amharu ar y tribiwnlysoedd hyn yn sylweddol oherwydd (a) gellir gwneud rhai penderfyniadau ar ôl ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a chyflwyniadau ysgrifenedig a (b) pan fo gwrandawiad yn angenrheidiol, gellir ei gynnal o bell heb ormod o drafferth.

4.5 Mae TAAAC yn ymdrin ag achosion sy'n canolbwyntio'n bennaf ar anghenion addysgol plant agored i niwed. Unwaith y daeth gwrandawiadau traddodiadol i ben, dechreuodd ymchwilio i'r ffyrdd gorau o ymdrin ag achosion o bell. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae TAAAC ar fin dechrau treialu'r defnydd o ystafelloedd gwrandawiad rhithwir (a gaffaelwyd gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru gyda chymorth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM) gyda'r bwriad o gynnal gwrandawiadau rhithwir ar gyfer achosion dros gyfnod y cyfyngiadau symud (ac wedi hynny, os bydd angen).

4.6 TAIM Cymru sydd â'r nifer mwyaf o achosion o bell ffordd o blith Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'r achosion gerbron y tribiwnlys lle mae angen cynnal gwrandawiad wedi cael eu cynnal mewn ysbyty yn draddodiadol. Ers i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, mae'r Tribiwnlys wedi bod yn cynnal gwrandawiadau dros y ffôn ac rwyf ar ddeall y bydd yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio mathau eraill o wrandawiadau o bell.

4.7 Er bod TAIM Cymru yn un o Dribiwnlysoedd Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017, fe’i crëwyd gan ddeddfwriaeth a ddeddfwyd gan Senedd y DU. Dros y blynyddoedd, mae’r rheolau sy’n gymwys yn Lloegr er mwyn llywodraethu’r corff sy’n cyfateb i TAIM Cymru wedi ymwahanu o’r rheolau sy’n llywodraethu TAIM Cymru. Yn gryno, mae’r rheolau yn Lloegr wedi cynnig llawer mwy o hyblygrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau. Felly am rai blynyddoedd yn Lloegr, er enghraifft, bu’n bosibl sefydlu tribiwnlys ag un neu ddau aelod (yn hytrach na’r nifer llawn, sef tri) er mwyn gwneud penderfyniadau mewn rhai mathau o achosion, ond ni fu hyn yn bosibl yng Nghymru. At hynny, mae’r tribiwnlys yn Lloegr wedi gallu penderfynu ar achosion drwy gyfeirio at ddeunydd ysgrifenedig yn unig os bodlonir rhai meini prawf, ond ni fu felly yng Nghymru. Unwaith y daeth yn hysbys bod Senedd y DU yn bwriadu deddfu Deddf y Coronafeirws 2020, gwnaed ymdrechion dygn i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau sy’n benodol i TAIM Cymru er mwyn sicrhau y gallai weithio mor hyblyg â’i gorff cyfatebol yn Lloegr. Yn ddiau drwy gryn dipyn o waith caled ar ran llawer o bobl ac, ymhellach, drwy waith cydweithredol rhwng gweision sifil yng Nghymru a Lloegr, cafodd darpariaethau addas sy’n benodol i TAIM Cymru eu drafftio a’u hymgorffori yn y Ddeddf. Yn unol â hynny, gall TAIM Cymru bellach weithio mor hyblyg â’i gorff cyfatebol yn Lloegr cyhyd ag y bydd darpariaethau perthnasol Deddf y Coronafeirws mewn grym. Mae’n werth nodi hefyd y llwyddais i a Llywydd TAIM Cymru, gyda chymeradwyaeth y Prif Weinidog, i gyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarfer ar y cyd yn ymwneud â gwaith TAIM Cymru, er mwyn ategu’r newidiadau i’r rheolau yng Nghymru, o fewn dyddiau o roi Cydsyniad Brenhinol i’r Ddeddf.

4.8 Yn amlwg, mae’n rhy gynnar hyd yn oed i awgrymu beth fydd gwir effaith pandemig y Coronafeirws ar waith Tribiwnlysoedd Cymru. Yn ddiau caiff ei effaith ei ystyried yn fanwl yn fy Nhrydydd Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, dylwn gofnodi fy niolch i aelodau Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru am fod yn barod i groesawu’r newidiadau angenrheidiol i arferion gwaith y Tribiwnlysoedd, lle bu’n bosibl gwneud hynny, ac am fod yn barod i fod yn hyblyg ac yn arloesol wrth ymdrin â’r heriau y mae’r Tribiwnlysoedd bellach yn eu hwynebu ac y maent yn debygol o barhau i’w hwynebu am fisoedd lawer i ddod.



**Syr Wyn Williams**
**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru**

# Adroddiad Blynyddol Cyntaf Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

31ain Mawrth 2019

Tribiwnlysoedd Cymru
Welsh Tribunals
Llywydd / President

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru | 3 |
| 3. | Tribiwnlysoedd Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017 | 5 |
| 4. | Penodi ar Gyfer Tribiwnlysoedd Cymru | 6 |
| 5. | Recriwtio ar Gyfer Tribiwnlysoedd Cymru | 7 |
| 6. | Safonau'r Gymraeg a Defnyddio'r Gymraeg yn Nhribiwnlysoedd Cymru | 8 |
| 7. | Uned Tribiwnlysoedd Cymru | 8 |
| 8. | Cyllideb Tribiwnlysoedd Cymru | 10 |
| 9. | Ystâd Tribiwnlysoedd Cymru | 10 |
| 10. | Mynediad at Gyfiawnder | 11 |
| 11. | Ffioedd a Delir I Aelodau'r Tribiwnlysoedd | 12 |
| 12. | Diwygio Tribiwnlysoedd Cymru | 13 |
| 13. | Diweddglo | 13 |


WG37655 ISBN digidol 978-1-83876-140-0

# 1. Cyflwyniad

Crëwyd swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gan adran 60 o Ddeddf Cymru 2017. Cefais fy mhenodi i'r swydd honno gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr (ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru ac Arglwydd Ganghellor Cymru a Lloegr) a byddaf yn y swydd tan 13 Awst 2021. Cyn i mi gael fy mhenodi, bûm yn cynorthwyo'r Arglwydd Brif Ustus i bwyso a mesur yr angen i gael Llywydd, ac ar ôl cael gwahoddiad ganddo ef – a gyda chytundeb Prif Weinidog Cymru – bûm yn cyflawni rôl y Llywydd ar "sail anstatudol" am rai misoedd cyn i mi gael fy mhenodi'n swyddogol o dan y Ddeddf.

Yn rhinwedd Atodlen 5 paragraff 14 o Ddeddf Cymru 2017, mae'n ofynnol bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn tyngu'r llw teyrngarwch a'r llw barnwrol ym mhresenoldeb yr Arglwydd Brif Ustus neu rywun arall a enwir gan yr Arglwydd Brif Ustus i weinyddu'r llw. Fe wnes i hynny mewn seremoni a gynhaliwyd yn Llys y Goron Caerdydd ar 14 Rhagfyr 2017, ym mhresenoldeb yr Arglwydd Brif Ustus.

Un o'm dyletswyddau statudol yw cyfleu safbwyntiau aelodau Tribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac aelodau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mewn cyfarfod gyda Phrif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2018, cytunwyd y byddwn yn cyflawni'r ddyletswydd honno drwy gyflwyno Adroddiad Blynyddol i Brif Weinidog Cymru ac i Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol. Hwn yw fy adroddiad cyntaf, ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng oddeutu mis Gorffennaf 2017 (sef pan ysgwyddais rôl y Llywydd ar sail anstatudol) a heddiw. O hyn ymlaen, byddaf yn cyflwyno adroddiadau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

# 2. Swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

Mae rhai o bwerau a dyletswyddau craidd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i'w gweld yn adrannau 60, 61, 62 a 63 o Ddeddf Cymru 2017. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys rhwymedigaethau i wneud yn siŵr bod Tribiwnlysoedd Cymru yn hygyrch, bod eu hachosion yn deg, bod achosion pob Tribiwnlys yn cael eu cynnal yn chwim ac yn effeithlon, a bod aelodau pob Tribiwnlys yn cael hyfforddiant priodol. Un enghraifft o rym y Llywydd yw'r grym i gyflwyno cyfarwyddiadau ynghylch y gweithrediadau a'r arferion y dylai'r Tribiwnlysoedd eu mabwysiadu.

Nid yw Deddf Cymru 2017 yn ceisio rhoi diffiniad cynhwysfawr o ddyletswyddau a phwerau'r Llywydd. Deallir a derbynnir fel arfer mai'r Llywydd yw'r barnwr uchaf ei safle yn y system tribiwnlysoedd datganoledig, ac yn unol â hynny, fod ganddo rôl yn goruchwylio pob un o Dribiwnlysoedd Cymru. Mae hyn yn ategu'r dyletswyddau y cyfeirir atynt yn benodol yn y Ddeddf. Rwyf wedi cyflawni'r rôl honno mewn perthynas â'r ychydig iawn o gwynion a ddaeth i law am brosesau gwneud penderfyniadau mewn achosion unigol. Ym mhob achos y cefais wybod amdano, cymerais gamau priodol i benderfynu a ymchwiliwyd i'r cwynion yn rhesymol ac yn gymesur, yn unol â'r drefn gwyno berthnasol. Ym mhob achos, roeddwn yn fodlon bod yr ymchwiliad wedi cael ei gynnal yn unol â´r drefn gwyno a bod yr ymchwiliad yn deg ac yn rhesymol.

Er nad yw Ddeddf Cymru 2017 yn trafod y pwynt, ymddengys yn glir fod gan y Llywydd, fel uwch farnwr, hawl i eistedd fel cadeirydd cyfreithiol pob un o Dribiwnlysoedd Cymru. Wedi dweud hynny, rwyf fi o'r farn na ddylai'r Llywydd eistedd fel cadeirydd cyfreithiol Tribiwnlys oni bai fod Arweinydd Barnwrol y Tribiwnlys hwnnw a'r Llywydd yn cytuno bod amgylchiadau achos penodol yn ei gwneud yn amhriodol i'r Arweinydd Barnwrol wneud hynny.

Dylid nodi nad cyfrifoldeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw nifer o dribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u datganoli yng Nghymru. Mae tribiwnlysoedd sy'n dyfarnu ynghylch achosion cyflogaeth, lloches a mewnfudo a nawdd cymdeithasol a chynhaliaeth plant yn cael eu cynnal gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yng Nghymru ("GLITEM Cymru"). Ar y cyfan, bydd barnwyr tribiwnlysoedd sy'n eistedd yn y tribiwnlysoedd hyn yn cael eu penodi gan Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Lloegr, sef yr uwch farnwr sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros y farnwriaeth yn y tribiwnlysoedd hyn nad ydynt wedi'u datganoli.

Mae tribiwnlysoedd eraill ar waith yng Nghymru sy'n annibynnol ar Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru, sydd â'i strwythur cyfreithiol a gweinyddol ei hun, a'r tribiwnlysoedd sy'n gwneud penderfyniadau am ddadleuon ynghylch derbyn plant i ysgolion a gwaharddiadau, a weinyddir gan yr awdurdod addysg lleol sy'n gyfrifol am yr ysgol dan sylw. Hyd y gwn i, nid oes gan y tribiwnlysoedd hyn sy'n cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol arweinydd barnwrol na strwythur cyfreithiol penodol.

Un o swyddogaethau pwysig y Llywydd yw cyfathrebu ag Uned Tribiwnlysoedd Cymru (y gweision sifil sy'n cefnogi Tribiwnlysoedd Cymru), gweision sifil yn nhîm Polisi Cyfiawnder Llywodraeth Cymru, ac arweinwyr barnwrol y Tribiwnlysoedd. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol, a'r rheini'n cael eu cadeirio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Bydd yr arweinwyr barnwrol, neu'u dirprwyon os bydd angen, pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac aelodau eraill o'r Uned, yn ogystal â chynrychiolydd o'r tîm Polisi Cyfiawnder, yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Maent yn gyfarfodydd busnes gwerthfawr iawn, sy'n rhoi cyfle i drafod materion sy'n berthnasol i bob un o'r Tribiwnlysoedd.

Mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol ar gyfer Tribiwnlysoedd. Corff ar gyfer y DU gyfan yw hwn, sy'n cael ei gadeirio gan Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Lloegr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o bob un o'r gwledydd sy'n ffurfio'r DU, ac mae'n fforwm hynod werthfawr i drafod arferion da ac i rannu syniadau ar gyfer gweinyddu cyfiawnder mewn tribiwnlysoedd ym mhob rhan o'r DU.

Mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn aelod o Bwyllgor Cymru Cyngor y Barnwyr hefyd. Mae Cyngor y Barnwyr yn cynnwys barnwyr ar bob lefel, a'i rôl yw cynghori'r Arglwydd Brif Ustus ar faterion pwysig sy'n ymwneud â'r farnwriaeth a gweinyddu cyfiawnder. Bydd uwch weision sifil yn mynychu'r cyfarfodydd hefyd. Bydd barnwyr ar bob lefel ac uwch aelodau GLITEM Cymru hefyd yn dod i Bwyllgor Cymru'r Cyngor. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter, a'm prif swyddogaeth i yn y cyfarfodydd yw diweddaru'r Arglwydd Brif Ustus ac aelodau eraill y Pwyllgor ynghylch gweinyddiaeth a gweithrediadau Tribiwnlysoedd Cymru.

# 3. Tribiwnlysoedd Cymru o Dan Ddeddf Cymru 2017

Mae Adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 yn diffinio 'Tribiwnlysoedd Cymru' fel:

(a) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTA Cymru");

(b) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIM Cymru");

(c) pwyllgor asesu rhenti a sefydlwyd yn unol ag Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (yn cynnwys Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau a Thribiwnlys Eiddo Preswyl) ("TEP Cymru");

(d) Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC");

(e) tribiwnlys a sefydlwyd yn unol ag Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 (cofrestru arolygwyr yng Nghymru: tribiwnlysoedd sy'n gwrando apeliadau o dan adran 27);

(f) tribiwnlys sy'n deillio o Banel Dyfarnu Cymru ("PDC");

(g) Tribiwnlys y Gymraeg ("TyG").

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer dileu a/neu amnewid y tribiwnlysoedd hyn, yn ogystal ag ychwanegu at y rhestr.

Nid oes tribiwnlys wedi cael ei sefydlu'n benodol i wrando apeliadau o dan adran 27 o Ddeddf Addysg 2005 (y tribiwnlys a restrir yn is-baragraff (e) uchod). Yn sicr, nid oes ganddo arweinydd barnwrol a benodwyd drwy broses ffurfiol. Fodd bynnag, mae aelodau TAAAC yn gymwys i ddelio ag unrhyw achosion sy'n codi. Yn ystod blwyddyn ariannol 2017-2018, ni chafodd y tribiwnlys hwnnw unrhyw apeliadau, ac ni fu unrhyw apeliadau o'r fath er mis Ebrill 2018.

Mae pob un o'r tribiwnlysoedd eraill a restrir uchod wedi mynd ati'n briodol i benodi arweinwyr barnwrol. Dyma'r barnwyr arweiniol: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru – Dr Christopher McNall; Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru – Ms Carolyn Kirby OBE; Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru – Mr Richard Payne; Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru – Ms Rhiannon Walker; Panel Dyfarnu Cymru – Ms Claire Sharp; a Thribiwnlys y Gymraeg – Yr Athro Keith Bush QC. Rwyf wedi meithrin perthynas waith agos ac effeithiol gyda phob un ohonynt.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan bob tribiwnlys i'w gweld yn y tabl isod.

**Tabl 1: Nifer y ceisiadau i bob tribiwnlys gyda chanran y cynnydd/gostyngiad**

| Tribiwnlys | Blwyddyn Ariannol 2016-2017 | Blwyddyn Ariannol 2017-2018 | Blwyddyn Ariannol 2018-2019 | Y cynnydd/ gostyngiad |
|---|---|---|---|---|
| TTA Cymru | 17 | 17 | 29 | +71 |
| TAIM Cymru | 2034 | 2028 | 2046 | +1 |
| TEP | 130 | 101 | 176 | +74 |
| TAAAC | 132 | 131 | 139 | +6 |
| PDC | 3 | 3 | 2 | -33 |
| TyG | 9 | 4 | 3 | -25 |

Bydd pob un o'r tribiwnlysoedd yn y tabl uchod yn llunio ei adroddiad blynyddol ei hun. Ceir rhagor o fanylion am natur gwaith pob tribiwnlys, a gwybodaeth am ei aelodaeth, yn yr adroddiadau hyn ac ar wefan pob Tribiwnlys.

# 4. Penodi ar Gyfer Tribiwnlysoedd Cymru

Bydd holl aelodau newydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cael eu penodi drwy broses ddethol a gynhelir gan Gomisiwn Penodiadau Barnwrol Cymru a Lloegr ("Y Comisiwn Penodiadau") ar ran yr awdurdod penodi.

Yn unol â'r darpariaethau statudol sydd mewn grym ar hyn o bryd, yr Arglwydd Ganghellor fydd yn gyfrifol am holl benodiadau TTA Cymru a TAIM Cymru (oni bai am aelodau cyfreithiol y panel cleifion dan gyfyngiadau, sy'n cael eu penodi gan yr Arglwydd Brif Ustus ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor). Bydd yr Arglwydd Ganghellor hefyd yn penodi aelodau cyfreithiol TAAAC ac aelodau cyfreithiol TEP Cymru (ond nid yr Arweinydd Barnwrol).

Mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi defnyddio'r grym dirprwyo a roddwyd iddo gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, ac wedi dirprwyo'r grym i benodi aelodau cyfreithiol panel cleifion dan gyfyngiadau TAIM Cymru i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Cafodd y grym penodi hwnnw ei ddirprwyo i'r Llywydd ar 27 Chwefror 2018. Bydd y grym wedi'i ddirprwyo yn bodoli nes bydd yn cael ei amrywio neu ei ddirymu gan yr Arglwydd Brif Ustus.

Gweinidogion Cymru fydd yn penodi Arweinydd Barnwrol TEP Cymru ac aelodau nad ydynt yn gyfreithiol TEP Cymru a TAAAC. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol hefyd am benodi holl aelodau PDC a TyG. Maent yn gallu manteisio ar wasanaethau'r Comisiwn Penodiadau o ran trefnu a gweinyddu cystadleuaeth ar gyfer y swyddi hyn drwy adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n caniatáu i'r Gweinidogion/Llywodraeth Cymru ymrwymo i drefniadau contractiol ffurfiol gydag asiantaethau fel y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Mae amryw yn ei gweld yn rhyfedd fod gwahanol awdurdodau'n gwneud y gwaith penodi, fel y disgrifiwyd uchod, ac nad yw nifer fawr o benodiadau i dribiwnlysoedd sy'n gweithredu dim ond yng Nghymru yn cael eu gwneud gan unigolyn neu gorff ar gyfer Cymru'n unig. Mae'n debygol y bydd y broses o benodi ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru yn destun adolygiad cynhwysfawr gan Gomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr pan fydd yn dechrau gweithio ar brosiect yn ymwneud â Thribiwnlysoedd Cymru – gweler adran 12 isod.

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi bod mewn cysylltiad â'r Athro Noel Lloyd ac wedi cyfarfod ag ef. Ef yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am faterion Cymru yn y Comisiwn Penodiadau, ac ef felly sy'n ymwneud fwyaf â phenodiadau i Dribiwnlysoedd Cymru a'r holl swyddi barnwrol eraill yng Nghymru. Yr Athro Lloyd yw cadeirydd Pwyllgor Materion Cymru. Penderfynais fynd i'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018 er mwyn codi rhai pryderon a oedd wedi cael eu mynegi wrthyf gan arweinwyr barnwrol am y broses o benodi unigolion i'w tribiwnlysoedd. Ar ôl y cyfarfod a llythyru â'r naill a'r llall, datryswyd y pryderon hynny'n hwylus.

O dan adran 62 o Ddeddf Cymru 2017, mae gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru y grym i benodi aelodau presennol Tribiwnlys penodol yng Nghymru i wasanaethu fel aelod o Dribiwnlys arall yng Nghymru. Mae'n amlwg mai un o brif amcanion y ddarpariaeth hon yw creu cohort o farnwyr ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru a fydd yn gallu defnyddio'u sgiliau barnwrol mewn amrywiol fathau o achosion, gan hybu hyblygrwydd ac effeithlonrwydd sylweddol yn y system.

Ni fydd ymarfer dethol y Comisiwn Penodiadau yn berthnasol i unigolion a benodir gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn unol â'r ddarpariaeth hon. Yn hytrach na hynny, gofynnir i'r ymgeiswyr fynegi diddordeb drwy lenwi ffurflen sydd wedi'i geirio'n briodol, ac yna bydd eu haddasrwydd ar gyfer eu penodi yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf eglur sy'n cadw'n agos at rai o'r meini prawf a ddefnyddir gan y Comisiwn Penodiadau. Ers rhai blynyddoedd, mae trefn dethol ar ôl "mynegi diddordeb" wedi bod yn llwyddiannus yn y system llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac rwy'n ffyddiog y gellir defnyddio'r broses benodi hon yn llwyddiannus yn Nhribiwnlysoedd Cymru. Dylid pwysleisio, am y tro fodd bynnag, y rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o benodiadau i Dribiwnlysoedd Cymru yn dal i gael eu gwneud drwy ddilyn proses ddethol wedi'i threfnu gan y Comisiwn Penodiadau.

O dan adran 63 o Ddeddf Cymru 2017, ceir penodi aelodau o dribiwnlysoedd Cymru a Lloegr, h.y. tribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u datganoli, a barnwyr eraill sy'n gwasanaethu yng Nghymru a Lloegr, i wasanaethu fel aelodau o Dribiwnlysoedd Cymru. Caiff Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru benodi'r unigolion hyn ar yr amod ei fod wedi cael caniatâd ymlaen llaw gan Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Lloegr neu'r Arglwydd Brif Ustus (yn ôl y digwydd). Hyd yn hyn, nid oes proses wedi'i dyfeisio i benodi ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru o dan y ddarpariaeth statudol hon, er bod rhai aelodau cyfreithiol TEP Cymru wedi cael eu penodi i'r tribiwnlys cyfatebol yn Lloegr.

# 5. Recriwtio ar Gyfer Tribiwnlysoedd Cymru

Yn dilyn marwolaeth drasig Mr Andrew Morris, Llywydd TEP Cymru, cynhaliodd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ymarfer recriwtio i ddod o hyd i olynydd iddo. Ar ôl y broses ddethol, penodwyd Mr Richard Payne yn Llywydd. Cynhaliwyd proses debyg i ddod o hyd i olynydd i Mr James Buxton ar ôl iddo ymddeol fel Cadeirydd TTA Cymru. Dr Christopher McNall oedd yr ymgeisydd llwyddiannus.

Er mis Gorffennaf 2017, mae'r penodiadau canlynol wedi cael eu gwneud hefyd:

- TTA Cymru – Draenio Tir.
- TEP Cymru – Aelodau Proffesiynol.
- TEP Cymru – Is-lywydd.
- TAIM Cymru – Aelodau Meddygol .
- TAAAC – Aelodau Cyfreithiol.
- PDC – Aelodau Cyfreithiol.

Dilynwyd ymarfer dethol a drefnwyd gan y Comisiwn Penodiadau ar gyfer pob un o'r penodiadau hyn. Daeth ceisiadau i law gan bobl gymwys iawn ym mhob un o'r ymarferion. Llwyddodd pob un o'r tribiwnlysoedd i lenwi pob swydd wag.

Ar ôl ymgynghori ag arweinwyr barnwrol pob tribiwnlys, penderfynais y byddwn yn cychwyn y broses o geisio penodi aelodau presennol o Dribiwnlys yng Nghymru i wasanaethu fel aelodau o Dribiwnlys arall. Gwahoddwyd aelodau cyfreithiol o Dribiwnlysoedd Cymru i fynegi diddordeb ar gyfer eu penodi i TTA Cymru, TAAAC a PDC. Llwyddwyd i lenwi pob swydd wag a hysbysebwyd. Roedd yr ymateb i'r ymarfer hwn yn galonogol iawn yn fy marn i. Roedd pob cais a ddaeth i law yn deilwng.

# 6. Safonau'r Gymraeg a Defnyddio'r Gymraeg yn Nhribiwnlysoedd Cymru

Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol a oedd yn gosod dyletswyddau ar rai sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio â safonau penodol ar gyfer ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'r safonau canlynol wedi'u gosod ar y Tribiwnlysoedd (ac eithrio PDC):

- Safonau cyflenwi gwasanaeth.
- Safonau llunio polisi.
- Safonau cadw cofnodion.

Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiadau cydymffurfio ynghylch y safonau yr oedd yn rhaid i TTA Cymru, TEP Cymru, TAIM Cymru a TAAAC gydymffurfio â nhw. Roedd yn rhaid i bob Tribiwnlys gydymffurfio â'r safonau a nodwyd yn yr hysbysiadau erbyn mis Mawrth 2017. Bryd hynny, nid oedd y safonau'n berthnasol i PDC er ei bod yn debygol y byddant yn berthnasol iddo yn y dyfodol agos.

Heriodd pob Tribiwnlys a oedd wedi cael hysbysiad cydymffurfio nifer o'r safonau yn yr hysbysiadau hynny ar y sail eu bod naill ai'n afresymol neu'n anghymesur. Ar ôl sawl argymhelliad a chyfarfod gyda Chomisiynydd y Gymraeg, cafodd yr hysbysiadau cydymffurfio eu hamrywio ac mae'r fersiynau terfynol y mae'n rhaid i'r Tribiwnlysoedd gydymffurfio â nhw wedi'u cyhoeddi ar wefan pob Tribiwnlys.

Mae gan bob Tribiwnlys aelodau (lleyg a chyfreithiol) sy'n gallu cynnal achosion yn Gymraeg. O ganlyniad, os bydd unrhyw un sy'n rhan o achos mewn unrhyw Dribiwnlys yn dymuno defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â'r Tribiwnlys yn ysgrifenedig, neu ar lafar yn ystod gwrandawiad, gellir rhoi panel addas a chymwys at ei gilydd.

Fodd bynnag, yn ôl adroddiadau arweinwyr barnwrol pob Tribiwnlys (ac eithrio TyG), anaml iawn y defnyddir y Gymraeg. Rwy'n deall bod cofnodion TyG yn dangos bod y Gymraeg wedi cael ei defnyddio mewn 5 achos ar draws pob un o'r Tribiwnlysoedd, ar wahân i TyG, yn ystod 2018-19.

# 7. Uned Tribiwnlysoedd Cymru

## a. Ei strwythur a'i phrif swyddogaeth

Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn cynnwys tîm o 34 aelod o staff sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm wedi'i rannu ar draws Cymru fel hyn: Parc Cathays, Caerdydd (22), Tŷ Southgate, Caerdydd (3), Llandrindod (8) a Chyffordd Llandudno (1).

Pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru yw Ms Rhian Davies-Rees.

Mae llawer o'r unigolion sydd wedi'u cyflogi yn yr Uned yn ymwneud â thribiwnlys penodol. TAIM Cymru yw'r tribiwnlys mwyaf o dipyn go lew felly mae'r rhan fwyaf o'r staff yn darparu cymorth ar gyfer y Tribiwnlys hwnnw.

Mae'n amlwg o Dabl 1 bod gwaith y tribiwnlysoedd ar gynnydd. Yn ystod y flwyddyn, mae arweinwyr barnwrol rhai o'r Tribiwnlysoedd wedi awgrymu bod staff dan bwysau neu fod staff yn brin, ac rwyf wedi cael trafodaethau ynglŷn â materion yn ymwneud â staff gyda phennaeth yr Uned.

Mae Pennaeth yr Uned yn cydnabod bod y gostyngiad yn y lefelau staffio wedi bod yn heriol iawn yn ystod y flwyddyn a fu. Fodd bynnag, mae lefelau staff yr Uned wedi gwella, a chaf ar ddeall fod y lefel yn gynaliadwy erbyn hyn.

Prif swyddogaeth yr Uned yw darparu'r holl systemau cefnogi angenrheidiol i sicrhau bod gwaith Tribiwnlysoedd Cymru yn cael ei wneud yn chwim ac yn effeithlon, ac yn unol â´r amcan cyffredinol, sef datrys achosion yn deg.

Mae'n bleser gennyf ddweud bod Ms Davies-Rees a'i thîm wedi ymateb i bob cais am gymorth gennyf i roi newidiadau ar waith, a'u bod wedi gwneud hynny'n frwdfrydig ac yn effeithlon. Er enghraifft, yn ystod 2017 pan oeddwn yn gweithredu yn y swydd ar sail "anstatudol", cymerodd yr Uned bob cam angenrheidiol i drefnu bod pob aelod cyfreithiol a lleyg o Dribiwnlysoedd Cymru yn cael cyfrif e-bost ar y system ddiogel, sef *ejudiciary*. Roedd hyn yn rhoi'r gallu i holl aelodau Tribiwnlysoedd Cymru gyfathrebu â'i gilydd yn electronig, a hynny'n ddiogel, am y tro cyntaf. Yn 2018, darparodd yr Uned yr holl gymorth gweinyddol yr oedd ei angen i sicrhau llwyddiant yr ymarfer dethol cyntaf i benodi aelodau presennol o Dribiwnlys yng Nghymru i fod yn aelod o Dribiwnlys arall. Yn 2017-18, darparodd yr Uned arbenigedd a chymorth angenrheidiol i arweinwyr barnwrol y Tribiwnlysoedd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae'n gwneud llawer o waith i geisio sicrhau bod Tribiwnlysoedd Cymru yn cydymffurfio â darpariaethau cyfreithiol eang newydd sy'n ymwneud â diogelu data (GDPR).

Ddechrau'r flwyddyn, gosodwyd nifer o flaenoriaethau ar y cyd ag Uned Tribiwnlysoedd Cymru a'r Uned Polisi Cyfiawnder. Y nod oedd llunio a rhannu canllawiau ar ddiogelu data, cytuno ar weithdrefnau cyson a chynhwysfawr lle bo modd ar gyfer cwynion gan y rheini sy'n defnyddio'r Tribiwnlysoedd, datblygu a gweithredu gweithdrefnau recriwtio ar gyfer penodi aelodau presennol o dribiwnlys i wasanaethu fel aelod o dribiwnlys arall, a sefydlu fforymau ar gyfer cydweithio yng nghyswllt Tribiwnlysoedd. Mae cynnydd da iawn wedi'i wneud mewn perthynas â'r blaenoriaethau hyn.

Serch hynny, mae diogelu data yn fater anodd, ac mae'r gyfraith yn gymhleth. Bu angen gofyn am gyngor cyfreithiol. Hyd yn hyn, cyfreithiwr sy'n cael ei gyflogi gan Lywodraeth Cymru sydd wedi bod yn rhoi'r cyngor hwn, ond nid oes ganddo rôl benodol yng nghyswllt Tribiwnlysoedd Cymru.

Mewn cyfarfod â Phrif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ym mis Chwefror 2018, codais y posibilrwydd o gael cyfreithiwr gyda rôl bwrpasol yng nghyswllt Tribiwnlysoedd Cymru, ac es ar drywydd hyn eto mewn llythyr at Brif Weinidog Cymru ym mis Ebrill 2018. Nid oedd y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol yn gwrthwynebu fy nghynnig yn ystod y cyfarfod, ac nid oedd unrhyw awgrym yn ymateb y Prif Weinidog i'm llythyr fod ganddo unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i benodi cyfreithiwr gyda rôl bwrpasol yng nghyswllt Tribiwnlysoedd Cymru. Fodd bynnag, nid oes neb wedi cael ei benodi hyd yn hyn. Er fy mod yn deall yn iawn fod pwysau o ran gwaith a chyllideb, byddwn yn gobeithio y byddai modd penodi rhywun yn y dyfodol agos.

## b. Ei statws

Mae GLlTEM Cymru yn rhan o sefydliad mwy, sef GLlTEM, sy'n asiantaeth weithredol. O'r herwydd, nid oes ganddo ei hunaniaeth gyfreithiol ei hun ar wahân i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae'n gweithredu'n unol â phwerau a ddirprwywyd iddo gan y Gweinidog a'r Weinyddiaeth. O'm profiad i fel barnwr gweinyddol Cymru, gwn fod GLlTEM a GLlTEM Cymru yn gweithredu'n annibynnol i ryw raddau ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ond mae'r ddau'n atebol i'r Gweinidog ac yn cael eu hariannu, yn y pen draw, gan y Trysorlys.

Codais yr angen i Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael statws tebyg gyda Phrif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Ni chafodd hyn ei ddiystyru, ond yr ymateb a gefais oedd y dylai'r mater hwn gael ei ystyried fel rhan o raglen ddiwygio sy'n ymwneud â sawl elfen o Dribiwnlysoedd Cymru. Rhagwelwyd ar y pryd y byddai'r rhaglen honno'n cael ei chynnal gan Gomisiwn y Gyfraith.

Rwy'n credu'n gryf y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael statws tebyg i statws GLITEM Cymru, ac y dylid cymryd camau i gyflawni'r nod hwnnw cyn gynted ag y bydd hynny'n rhesymol ymarferol. Yn fy marn i, ni ddylem aros am waith Comisiwn y Gyfraith gan fod y diwygio yn amlwg yn ddymunol.

Yn ogystal â chynnig manteision sylweddol o ran y ffordd y mae system Tribiwnlysoedd Cymru yn gweithredu o safbwynt effeithlonrwydd a chyfeiriad, byddai cyflwyno statws asiantaeth weithredol i Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn rhoi elfen o annibyniaeth iddi ar Lywodraeth Cymru. Byddai hynny'n sicr yn atgyfnerthu'r angen cyson i system Tribiwnlysoedd Cymru fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac i gael ei gweld felly. Mae annibyniaeth farnwrol yn un o gonglfeini ein system ddemocrataidd, ac mae gofyn cadw llygad barcud bob amser i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a bod eraill yn gweld hynny.

# 8. Cyllideb Tribiwnlysoedd Cymru

Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyllideb Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Yn ystod blwyddyn ariannol 2017-2018, dyrannwyd £4,068k i'r Uned. Y dyraniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-2019 yw £4,068k, ond rhagwelir y bydd gorwario.

Caf ar ddeall mai'r cynnydd mewn llwyth achosion, a nodir yn Nhabl 1 uchod, sydd wrth wraidd y cynnydd hwn mewn gwariant.

Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer costau rhedeg tribiwnlysoedd a gweinyddol.

Ym mis Rhagfyr 2018, cwblhawyd adolygiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith bosib yr adolygiad hwnnw. Fodd bynnag, mae'r arwyddion cynnar yn dangos y bydd angen cael rhagor o adnoddau gweinyddol a barnwrol i ddelio â'r gwrandawiadau ychwanegol.

# 9. Ystâd Tribiwnlysoedd Cymru

Nid oes gan Dribiwnlysoedd Cymru un ganolfan bwrpasol ar gyfer gwrandawiadau.

Bydd TAIM Cymru yn cynnal gwrandawiadau mewn ysbytai; nid oes gan yr aelodau cyfreithiol hynny sy'n delio â cheisiadau ar bapur, ac nad oes angen iddynt fynd i ysbyty, swyddfa benodol i wneud eu gwaith. Byddant yn gweithio o gartref neu yn y swyddfeydd y byddant yn eu defnyddio yn rhinwedd eu proffesiwn.

Mae TAAAC, TTA Cymru a PDC wedi'u lleoli mewn swyddfeydd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yn Llandrindod. Mae'r swyddfeydd hynny'n cynnwys ystafell sy'n addas ar gyfer rhai mathau o wrandawiadau, ond mae'n gyffredin i'r tribiwnlysoedd hynny ddefnyddio lleoedd eraill, er enghraifft ystafelloedd mewn gwestai ac ystafelloedd llys sy'n rhan o ystâd y llysoedd a weinyddir gan GLITEM Cymru.

Mae TEP Cymru a TyG wedi'u lleoli mewn adeilad sy'n cael ei rentu gan Lywodraeth Cymru yn Nhŷ Southgate, Caerdydd. Mae'r adeilad yn cynnwys ystafell y gellir ei defnyddio ar gyfer gwrandawiadau, ond mae TEP Cymru yn arbennig yn defnyddio canolfannau eraill hefyd, yn enwedig os yw anghydfod gerbron y Tribiwnlys yn ymwneud ag eiddo sydd gryn bellter o Gaerdydd.

Yn ystod 2018, dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n adnewyddu'r les ar Dŷ Southgate pan fyddai'n dod i ben yn 2019. Mae adeilad addas arall wedi cael ei ganfod ar gyrion Casnewydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud ei bod yn ystyried cael gwared â'r adeilad sydd ganddi yn Llandrindod. O ran dod o hyd i le arall, un o'r cynigion yw defnyddio lleoedd sydd ar gael yn swyddfeydd Cyngor Sir Powys, sydd hefyd yn Llandrindod. Gydag addasiadau priodol, nid oes unrhyw reswm mewn egwyddor pam na ellir lleoli staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru mewn swyddfa sy'n rhan o adeilad sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys neu yn ei feddiant. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol cynnal gwrandawiadau tribiwnlysoedd mewn adeilad sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys neu yn ei feddiant. Mae'n rhaid ymddangos yn ddiduedd mewn achosion, ac yn fy marn i byddai'n anodd iawn ymddangos yn ddiduedd mewn achosion sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol pe byddai gwrandawiadau'n cael eu cynnal mewn adeilad lle mae'r taliad (yn ôl pob tebyg) ar gyfer cyfleusterau'r gwrandawiad yn cael ei wneud o gyllideb Tribiwnlysoedd Cymru i awdurdod lleol.

Mae awdurdodau lleol bron bob amser yn rhan o'r achosion sydd gerbron TAAAC; bydd cynghorwyr yn ymddangos gerbron PDC. Felly, yn anffodus, byddai symud i swyddfeydd Cyngor Sir Powys yn golygu y byddai'n rhaid cynnal holl wrandawiadau TTA Cymru, TAAAC a PDC mewn gwestai, yn llysoedd GLITEM Cymru neu mewn canolfannau eraill sydd y tu allan i reolaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau o ran cost i Dribiwnlysoedd Cymru, a bydd angen sicrhau rhagor o gyllid wrth fynd ymlaen.

# 10. Mynediad at Gyfiawnder

Fel yr wyf wedi'i egluro'n barod, un o'm dyletswyddau o dan Ddeddf Cymru 2017 yw sicrhau bod Tribiwnlysoedd Cymru yn hygyrch. Rwy'n cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifri. Mae'n hanfodol bod Tribiwnlysoedd Cymru yn gallu gweithredu'n hyblyg ac mewn ffordd sy'n caniatáu i'r rheini sy'n defnyddio'r Tribiwnlysoedd gyflwyno eu hachosion yn y ffordd fwyaf ffafriol bosib. Mae hefyd yn hollbwysig bod ymddangos mewn Tribiwnlysoedd yn golygu cyn lleied o anhwylustod â phosib i bobl, a'i fod yn amharu cyn lleied â phosib ar eu bywyd bob dydd. Cedwir hynny mewn cof wrth drefnu pob gwrandawiad.

Mae cymorth cyfreithiol ar gael i raddau helaeth yn TAIM Cymru, ac fel yr wyf wedi'i ddweud, bydd gwrandawiadau'n cael eu cynnal yn ddieithriad yn yr ysbyty lle mae'r claf. Gallai cymorth cyfreithiol fod ar gael ar gyfer TAAAC hefyd (gan ddibynnu ar nifer o ffactorau). Yn ddieithriad, caiff gwrandawiadau eu cynnal mewn lleoedd sy'n hwylus i'r partïon, ac yn benodol, mewn lleoedd sy'n hwylus i rieni'r plentyn/plant sydd o dan ystyriaeth mewn achos arbennig.

Nid oes cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer Tribiwnlysoedd eraill Cymru. Yn yr un modd â TAAAC, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gwrandawiadau'n cael eu cynnal mewn lleoedd sy'n hwylus i'r partïon.

Mae aelodau cyfreithiol pob Tribiwnlys wedi meithrin y sgiliau angenrheidiol i gadeirio gwrandawiadau lle ceir ymgyfreithiwr drosto'i hun. Mae arweinwyr barnwrol pob Tribiwnlys yn fy sicrhau (ac nid oes gennyf reswm i amau hyn) fod gweithdrefnau'n cael eu mabwysiadu mewn gwrandawiadau sy'n ceisio sicrhau bod ymgyfreithiwr drosto'i hun yn gallu cyflwyno'i achos yn y ffordd fwyaf ffafriol bosib.

Er gwaethaf ymdrechion aelodau'r Tribiwnlysoedd a staff cefnogi Uned Tribiwnlysoedd Cymru, rwy'n sylweddoli bod angen i mi gadw golwg ar hyn a sicrhau bod mynediad at Dribiwnlysoedd yn cael ei gynnal a'i wella. I'r perwyl hwnnw, bydd Ms Davies-Rees yn cael cyfarfodydd rheolaidd ag uwch weision sifil GLlTEM Cymru i rannu syniadau ar gyfer arferion da ac er mwyn i Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael ei diweddaru ynghylch cynlluniau diwygio GLlTEM. Yn ogystal â hyn, fel yr wyf wedi sôn eisoes, rwy'n aelod o'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol ar gyfer Tribiwnlysoedd, lle mae trafodaethau ynghylch materion sy'n ymwneud â mynediad at gyfiawnder ar frig yr agenda bob amser.

# 11. Ffioedd a Delir i Aelodau'r Tribiwnlysoedd

Telir ffioedd i holl aelodau cyfreithiol a lleyg Tribiwnlysoedd Cymru, ac eithrio Llywydd TAIM Cymru, sy'n cael cyflog. Yn hanesyddol, Is-adran Polisi Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am Dribiwnlys penodol fyddai'n pennu'r ffioedd ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys hwnnw. Yn sgil hyn, mae anghysonderau mawr wedi datblygu rhwng y Tribiwnlysoedd. Mae'r anghysonderau hyn yno o hyd.

Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd, mae arweinwyr barnwrol wedi dwyn fy sylw at yr anghysonderau hyn, ar eu rhan eu hunain ac ar ran eu haelodau. Y gwir amdani yw, ni ellir cyfiawnhau'r anghysonderau hyn, ac os bydd y sefyllfa'n parhau, maent yn debygol o gael effaith negyddol ar forâl y rheini sy'n cael ffioedd rhy isel. Bydd penodi aelodau presennol o dribiwnlys i wasanaethu fel aelodau o dribiwnlys arall yn amlygu'r anghysonderau. Yn sicr, mae angen mynd ati ar frys i arfarnu'r strwythur ffioedd sydd ohoni yn feirniadol, gyda golwg ar greu strwythur ffioedd sy'n deg ac yn gyfiawn.

Fel mae'n digwydd, yn ddiweddar mae'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion wedi cyhoeddi adolygiad ar gyflogau barnwrol yn y DU. O ganlyniad i'r adolygiad hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i sicrhau cynnydd o 2% mewn ffioedd. Fodd bynnag, mae adolygiad y Corff hefyd yn cynnwys argymhellion ynglŷn â lefel ffioedd aelodau cyfreithiol Tribiwnlysoedd Cymru. Yn fy marn i, mae'r adolygiad hwnnw'n rhoi man cychwyn o leiaf ar gyfer seilio strwythur ffioedd sy'n deg ac yn gyfiawn i holl aelodau cyfreithiol Tribiwnlysoedd Cymru.

Yn ôl fel yr wyf i'n ei deall hi, mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru eisoes yn ymwneud â gwaith i sicrhau bod strwythur ffioedd teg a chyfiawn ar waith. Rwy'n sylweddoli y gallai fod yn demtasiwn i Lywodraeth Cymru aros am yr ymateb i adolygiad y Corff Adolygu Cyflogau uwch-swyddogion o Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Yn fy marn i, fodd bynnag, camgymeriad fyddai hynny oherwydd nid yw'r anghysonderau sy'n gyffredin yng Nghymru ar unrhyw gyfrif mor ddifrifol mewn awdurdodaethau eraill.

Nid yw adolygiad y Corff yn ymdrin ag aelodau nad ydynt yn gyfreithiol. Serch hynny, dylai fod yn bosib adolygu anghysonderau yn y ffioedd a delir i aelodau lleyg a dyfeisio strwythur priodol.

# 12. Diwygio Tribiwnlysoedd Cymru

Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith wedi cytuno y bydd y Comisiwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Tribiwnlysoedd a'u systemau cefnogi. Mae'n anochel y bydd y prosiect yn eang iawn. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai gwaith yn dechrau'n fuan yn 2019. Yn anffodus, mae'n amlwg erbyn hyn na fydd gwaith ar y prosiect yn dechrau cyn tymor yr hydref 2019.

Heb os nac oni bai, bydd gwaith Comisiwn y Gyfraith yn hanfodol mewn sawl ystyr – mae'n bosib y bydd yn gosod y sylfaen ar gyfer system tribiwnlysoedd datganoledig y gall Cymru fod yn falch ohoni. Fodd bynnag, nid wyf yn teimlo y dylai diwygiadau synhwyrol y gellir eu cyflwyno fesul cam ac nad oes angen deddfwriaeth i'w hategu (fel symleiddio arferion a gweithdrefnau, rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer traws-leoli rhwng Tribiwnlysoedd Cymru a Lloegr a thrawsnewid Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn asiantaeth weithredol) wynebu oedi wrth aros am ganlyniad gwaith y Comisiwn. Os felly, mae'n debygol y byddai rhai blynyddoedd yn mynd heibio cyn y byddai unrhyw ddiwygio ystyrlon yn dechrau. Yn wir, mae'n ddigon posib y byddai bwrw ymlaen â rhywfaint o waith diwygio ar y cychwyn yn helpu Comisiwn y Gyfraith wrth ei waith.

# 13. Diweddglo

O'r eiliad y dechreuais ymwneud â Thribiwnlysoedd Cymru, rwyf wedi cael cefnogaeth galonnog gan Arweinwyr Barnwrol pob Tribiwnlys, pennaeth staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac amrywiol aelodau tîm Polisi Cyfiawnder Llywodraeth Cymru yr wyf wedi bod mewn cysylltiad â nhw. Pan mae'r angen wedi codi, rwyf wedi cael cyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, ac wedi bod yn fwy na pharod i ddibynnu ar y cyngor hwnnw. Hoffwn gofnodi fy niolch i bob un o'r unigolion hyn.

Rydym yn cychwyn ar daith tuag at gyflwyno system dribiwnlysoedd fodern a hyblyg i Gymru – system a fydd yn gallu ymateb i anghenion rhesymol y rheini sy'n defnyddio'r tribiwnlysoedd, ac yn bwysicach na dim, a fydd yn gallu cyflwyno penderfyniadau teg yn chwim ac yn ddarbodus. Mae rhai o'r sylfeini yn eu lle'n barod, ond mae'n anochel y bydd sawl her o'n blaen, yn enwedig os bydd gwaith y rhan fwyaf o'r Tribiwnlysoedd yn dal i dyfu, fel sy'n debygol o ddigwydd.



**Syr Wyn Williams**
**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru**

Eitem 3

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 13 Gorffennaf 2020

## SL(5)568 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"). Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 303 a 333(2A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990"). Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth benodol mewn cysylltiad â ffioedd ar gyfer cynllunio a cheisiadau cysylltiedig. Mae hyn yn ddarostyngedig i adran 333(3E)-(3F) o Ddeddf 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddrafft o'r Rheoliadau gael ei osod gerbron a'i gymeradwyo trwy benderfyniad y Senedd.

Nod ffioedd ymgeisio yw adennill costau awdurdodau cynllunio lleol wrth ddarparu gwasanaeth rheoli datblygu. Diben y Rheoliadau yw mynd i'r afael â'r diffyg presennol rhwng cost penderfynu ceisiadau a'r incwm a geir am ddarparu'r gwasanaeth hwn. Effaith y Rheoliadau fydd cadw'r strwythur ffioedd cyfredol a sefydledig a nodir yn Rheoliadau 2015. Fodd bynnag, bydd y ffioedd hynny'n cael eu cynyddu, ac eithrio ffioedd am wasanaethau cyn ymgeisio, a fydd yn aros ar y lefelau cyfredol.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:** 24 Mehefin 2020

**Yn dod i rym ar:** 24 Awst 2020

# SL(5)572 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau mis Ebrill 2020") i wneud darpariaeth dros dro bellach mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol a mynediad y cyhoedd a'r wasg at y cyfarfodydd hyn yn ystod pandemig COVID-19.

Mae Rheoliadau mis Ebrill 2020 yn addasu gofynion presennol mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol (gan gynnwys cyfarfodydd awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol) am gyfnod penodedig, i leihau risgiau i awdurdodau lleol wrth gynnal busnes ac i sicrhau y gall eu haelodau a'u swyddogion weithredu yn unol â'r canllawiau iechyd swyddogol. Roedd Rheoliadau mis Ebrill 2020 hefyd yn ceisio lleihau'r risg i'r cyhoedd a'r wasg drwy alluogi neu ei gwneud yn ofynnol i nifer o weithgareddau gael eu cynnal yn electronig yn hytrach nag wyneb yn wyneb neu drwy wasanaethau post.

Mae'r Rheoliadau Diwygio hyn yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer yr un dibenion hyn ac yn gwneud addasiadau sy'n codi o ganlyniad i Reoliadau mis Ebrill 2020. Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn diwygio rheoliad 9 o Reoliadau mis Ebrill 2020 sy'n ymwneud â'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynnal cyfarfodydd penodol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bygythiad difrifol y coronafeirws. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyngoriadau cynghori gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff sy'n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru a chyrff eraill.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gynnal ymhellach i God Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ac yn sgil yr angen i wneud y Rheoliadau Diwygio hyn ar fyrder.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**6 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 653 (Cy. 150)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/442 (Cy. 100)) ("Rheoliadau mis Ebrill 2020").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 9 o Reoliadau mis Ebrill 2020, gan ddatgymhwyso'r rheoliad hwnnw mewn perthynas â chyfarfodydd o fath a ddisgrifir ym mharagraff newydd (3) o'r rheoliad hwnnw. Mae hyn yn golygu bod rhaid i awdurdodau lleol gynnal y cyfarfodydd hynny o fewn y terfyn amser a osodir gan y deddfiad neu'r offeryn y mae rhaid cynnal y cyfarfod oddi tano.

Mae rheoliadau 3 i 5 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Rhan 4 o Reoliadau mis Ebrill 2020. Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer addasu adran 228 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70). O dan yr addasiad, nid yw'n ofynnol i gynghorau cymuned ddarparu bod cofnodion trafodion yn agored i'w harchwilio, ond yn lle hynny mae'n ofynnol iddynt ddarparu copïau o gofnodion ar gais.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer addasu adran 26(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p. 23), mewn perthynas â rhoi hysbysiad am gyfarfodydd penodol o dan y Ddeddf honno.

Mae rheoliad 5 yn ychwanegu Atodlen at Reoliadau mis Ebrill 2020, ac yn gwneud diwygiadau cysylltiedig eraill. Mae'r Atodlen yn nodi addasiadau i ddeddfiadau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r addasiadau a wneir gan Ran 4 o'r Rheoliadau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 653 (Cy. 150)

# LLYWODRAETH LLEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *30 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *21 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 78 o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau mis Ebrill 2020" yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020(**2**).

**Datgymhwyso rheoliad 9 o Reoliadau mis Ebrill 2020 mewn perthynas â chyfarfodydd penodol**

**2.** Yn Rheoliadau mis Ebrill 2020, yn rheoliad 9, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) y gofyniad—

(**1**) 2020 p. 7; *gweler* adran 78(5)(b) am y diffiniad o "relevant national authority" mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng Nghymru.
(**2**) O.S. 2020/442 (Cy. 100).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) o dan adran 115 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(1) i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan adran 114 o'r Ddeddf honno;

(ii) o dan adran 115B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan adran 114A o'r Ddeddf honno;

(iii) o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(2) i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan yr adran honno gan bennaeth gwasanaeth taledig;

(iv) o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan yr adran honno gan swyddog monitro neu ddirprwy i swyddog monitro;

(v) o dan adran 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan yr adran honno gan swyddog monitro neu ddirprwy i swyddog monitro;

(vi) o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(3) i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan adran 22 o'r Ddeddf honno, neu argymhelliad o fewn adran 25(2) o'r Ddeddf honno;

(b) unrhyw ofyniad i gynnal cyfarfod cyn gynted ag y bo'n ymarferol (sut bynnag y mynegir y gofyniad hwnnw)."

**Cofnodion cyfarfodydd cynghorau cymuned**

**3.** Yn Rheoliadau mis Ebrill 2020, ar ôl rheoliad 23 mewnosoder—

"**24.** Mae adran 228 o Ddeddf 1972(4) (archwilio dogfennau) i'w darllen mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod awdurdod lleol y mae'r adran honno'n gymwys iddo (yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad), a gynhelir cyn diwedd 30 Ebrill 2021, fel pe bai—

(1) 1988 p. 41.
(2) 1989 p. 42.
(3) 2004 p. 23.
(4) 1972 p. 70. Diwygiwyd is-adran (1) gan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985 (p. 43) ac Atodlen 2 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) y canlynol wedi ei fewnosod o flaen is-adran (1)—

"(A1) A copy of the minutes of proceedings of a community council must, so far as reasonably practicable, be supplied on request to a local government elector for the area of the council; and a reasonable fee may be charged for providing a copy of the minutes.";

(b) yn is-adran (1), "or community" wedi ei hepgor;

(c) yn is-adran (6), "any of subsections (1) to (5) of" wedi ei fewnosod o flaen "this section"."

**Hysbysu am gyfarfodydd penodol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004**

**4.** Yn Rheoliadau mis Ebrill 2020, ar ôl rheoliad 24 (fel y'i mewnosodir gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn) mewnosoder—

"**25.** Mae adran 26 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd penodol) i'w darllen, mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod awdurdod lleol a gynhelir, cyn diwedd 30 Ebrill 2021, yn unol ag adran 25(4) o'r Ddeddf honno, fel pe bai, yn is-adran (3)(a), "of the meeting and, if the meeting is to be open to the public, how to access the meeting" wedi ei roi yn lle "and place of the meeting"."

**Addasiadau i ddeddfiadau amrywiol sy'n gysylltiedig â Rhan 4 o Reoliadau mis Ebrill 2020**

**5.**—(1) Yn Rheoliadau mis Ebrill 2020—

(a) yn rheoliad 19, yn lle "rheoliad 22" rhodder "rheoliadau 22 a 26, a pharagraffau 1 a 2(c) o'r Atodlen,";

(b) ar ôl rheoliad 25 (fel y'i mewnosodir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn) mewnosoder—

"**26.** Mae'r Atodlen yn cynnwys addasiadau i ddeddfiadau amrywiol, sy'n gysylltiedig â'r Rhan hon."

(2) Ar ddiwedd Rheoliadau mis Ebrill 2020 mewnosoder—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# "YR ATODLEN

Rheoliad 26

## Addasiadau pellach sy'n gysylltiedig â Rhan 4

**1.** Yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976(**1**), mae adran 41 i'w darllen mewn perthynas ag awdurdod lleol y mae'r adran honno'n gymwys iddo (yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad) fel pe bai, yn is-adran (1)(b)—

(a) "signed or authenticated in accordance" wedi ei roi yn lle "signed in accordance";

(b) "or authenticated" wedi ei fewnosod ar ôl "when the minutes were signed".

**2.** Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(**2**) i'w darllen mewn perthynas ag un o gyfarfodydd pwyllgor safonau (o fewn ystyr y Rheoliadau hynny), a gynhelir cyn diwedd 30 Ebrill 2021, fel pe bai—

(a) yn rheoliad 26—

(i) ym mharagraff (1), is-baragraff (ch) wedi ei hepgor;

(ii) ym mharagraff (2A), yn is-baragraff (a), "a 100C" wedi ei roi yn lle "i 100D"(**3**);

(iii) paragraff (4) wedi ei hepgor;

(b) yn rheoliad 27, y canlynol wedi ei roi yn lle paragraffau (1) i (3)—

"(1A) Pan fo—

(a) yn ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad neu ddogfen arall sy'n gysylltiedig ag un o gyfarfodydd ei bwyllgor safonau ar ei wefan yn rhinwedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, a

(b) gwefan gan un neu ragor o'r cynghorau cymuned a leolir yn ardal yr awdurdod lleol,

caiff yr awdurdod lleol, os gwêl yn dda, ddarparu bod yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi neu'r ddogfen arall yn cael ei chyhoeddi ar wefannau'r cynghorau

(**1**) 1976 p. 57.
(**2**) O.S. 2001/2283 (Cy. 172).
(**3**) Mewnosodwyd paragraff (2A) gan reoliad 2(16) o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/85) (Cy. 39).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cymuned hynny (yn ogystal ag ar ei wefan ei hun).”;

(c) yn rheoliad 28, y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (1)—

“(1A) Ond caniateir i gofnodion trafodion pwyllgor safonau sy’n digwydd ar ôl 21 Gorffennaf 2020 (sef y dyddiad y daeth Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 i rym) a chyn 1 Mai 2021 gael eu llunio mewn dogfen yn lle hynny, a rhaid i’r ddogfen honno gael ei dilysu gan gadeirydd y pwyllgor.”

**3.** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i’w darllen mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod awdurdod lleol a gynhelir, cyn diwedd 30 Ebrill 2021, yn unol ag adran 24 neu (yn ôl y digwydd) 25 o’r Ddeddf honno fel pe bai—

(a) yn adran 24—

(i) yn is-adran (5), ym mharagraff (a), “published under that provision” wedi ei roi yn lle “supplied under that section (supply of agenda etc. to newspapers)”;

(ii) yn is-adran (5), ym mharagraff (b)(i), “published” wedi ei roi yn lle “open to inspection”;

(iii) yn is-adran (5), is-baragraff (ii) o baragraff (b), a’r gair “or” sy’n dod o’i flaen, wedi eu hepgor;

(iv) yn is-adran (7), “100C(2)(d) and (6)(d) of that Act” wedi ei roi yn lle “100C(1)(d) of that Act (public access to copies of reports for 6 years after meeting)”;

(b) yn adran 26—

(i) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (6)—

“(6) But if section 100C of the Local Government Act 1972 applies in relation to the meeting, the approved summary must indicate the documents in relation to the meeting which have been published electronically under that section.”;

(ii) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (6)—

“(6A) Subsection (6B) applies in relation to a meeting which is not open to the public other than by virtue of—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) section 1(2) of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960(**1**), or

(b) section 100A(2) or (4) of the Local Government Act 1972.

(6B) The reference in subsection (5) to a decision made at a meeting while the public were excluded includes a reference to a decision made while, in the proper officer's opinion, it is likely the meeting would not have been open to the public by virtue of—

(a) section 1(2) of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, had section 1(1) of that Act applied;

(b) section 100A(2) or (4) of the Local Government Act 1972, had section 100A(1) of that Act applied.""

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
26 Mehefin 2020

(**1**) 1960 p. 67.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020.

Julie James AS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

30 Mehefin 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y Rheoliadau Diwygio”) yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/442 (Cy. 100)) (“Rheoliadau mis Ebrill 2020”) i wneud darpariaeth dros dro bellach mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol a mynediad y cyhoedd a’r wasg at y cyfarfodydd hyn yn ystod pandemig COVID-19. Mae’r Rheoliadau Diwygio hefyd yn gwneud addasiadau sy’n codi o ganlyniad i Reoliadau mis Ebrill 2020.

Mae Rheoliadau mis Ebrill 2020 yn cynnig hyblygrwydd i alluogi awdurdodau lleol (gan gynnwys gweithrediaethau awdurdodau lleol) i weithredu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, gan gadw'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd drwy, er enghraifft, alluogi cyfarfodydd i gael eu cynnal lle bo’r holl fynychwyr neu rai ohonynt yn ymuno o bell, a thrwy wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi dogfennau penodol yn electronig.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau Diwygio o dan adran 78 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (“Deddf 2020”) ac maent yn gwneud diwygiadau penodol i Reoliadau mis Ebrill 2020 a wnaed gan Weinidogion Cymru ar 21 Ebrill 2020 ac a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020.

Mae adran 78(1) o Ddeddf 2020 yn galluogi’r awdurdod cenedlaethol perthnasol i wneud darpariaeth drwy reoliadau mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol. Yn unol ag adran 78(5)(b), mae awdurdod cenedlaethol perthnasol (“*relevant national authority*”) yn golygu Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae adran 78(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso neu addasu unrhyw ddeddfiad neu is-ddeddfwriaeth ac i wneud darpariaeth ganlyniadol ac atodol.

Mae adran 78(13) o Ddeddf 2020 yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan adran 78 o Ddeddf 2020 yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Rheoliadau mis Ebrill 2020 yn addasu gofynion presennol mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol (gan gynnwys cyfarfodydd awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol) am gyfnod penodedig, i leihau risgiau i awdurdodau lleol wrth gynnal busnes ac i sicrhau y gall eu haelodau a'u swyddogion weithredu yn unol â'r canllawiau iechyd swyddogol. Roedd Rheoliadau mis Ebrill 2020 hefyd yn ceisio lleihau'r risg i'r cyhoedd a'r wasg drwy alluogi neu ei gwneud yn ofynnol i nifer o weithgareddau gael eu cynnal yn electronig yn hytrach nag wyneb yn wyneb neu drwy wasanaethau post.

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer yr un dibenion hyn ac yn gwneud addasiadau sy'n codi o ganlyniad i Reoliadau mis Ebrill 2020. Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn diwygio rheoliad 9 sy'n ymwneud â'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynnal cyfarfodydd penodol.

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn mewnosod darpariaeth newydd yn Rheoliadau mis Ebrill 2020. Mae'r termau sy'n cael eu diffinio yn rheoliad 2 o Reoliadau mis Ebrill 2020 yn gymwys i'r Rheoliadau Diwygio.

<u>Rheoliad 2 o'r Rheoliadau Diwygio</u>

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio rheoliad 9 o Reoliadau mis Ebrill 2020 i fewnosod paragraff (3) newydd yn y rheoliad hwnnw. Gwnaeth rheoliad 9 o Reoliadau mis Ebrill 2020 ddarpariaeth i ddarparu hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynnal cyfarfodydd y mae'n ofynnol iddynt (yn rhinwedd deddfiad neu offeryn arall) eu cynnal cyn 1 Mai 2021 (heblaw am y cyfarfodydd blynyddol a restrir ym mharagraff (2) o'r rheoliad hwnnw) ar unrhyw ddiwrnod ac ar unrhyw amser cyn 1 Mai 2021 y mae'r awdurdod lleol yn ei bennu.

Mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'r casgliad na ddylai hyblygrwydd o'r fath fod yn gymwys i gyfarfodydd awdurdodau lleol (gan gynnwys gweithrediaethau awdurdodau lleol pan fo'n briodol) y mae'n ofynnol iddynt eu cynnal o fewn

cyfnod penodedig ar ôl i gopïau o adroddiadau gael eu hanfon i awdurdodau (neu at aelodau, yn ôl y digwydd). Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod pwnc cyfarfodydd o'r fath mor ddifrifol fel na ddylai awdurdodau lleol, os anfonir adroddiadau, allu gohirio'r cam gofynnol tan unrhyw amser cyn 1 Mai 2021 y maent yn ei bennu.

Felly, mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau Diwygio yn datgymhwyso rheoliad 9(1) o Reoliadau mis Ebrill 2020 ar gyfer cyfarfodydd y mae'n ofynnol eu cynnal o dan y darpariaethau a restrir yn y paragraff (3)(a) newydd.

Mae'r paragraff (3)(b) newydd yn datgymhwyso rheoliad 9 mewn perthynas ag unrhyw ofyniad statudol i gynnal cyfarfod gan awdurdod lleol "cyn gynted ag y bo'n ymarferol (sut bynnag y mynegir y gofyniad hwnnw)". Mae hyn yn cynnwys gofynion i gwrdd "cyn gynted ag y bo'n ymarferol", "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol", "cyn gynted â phosibl" ac ymadroddion eraill i'r perwyl hwnnw.

<u>Rheoliadau 3 i 5 o'r Rheoliadau Diwygio</u>

Mae rheoliadau 3 i 5 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Rhan 4 o Reoliadau mis Ebrill 2020. Mae rheoliad 5 hefyd yn ychwanegu Atodlen newydd at Reoliadau mis Ebrill 2020.

Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer addasu adran 228 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhelir cyn diwedd 30 Ebrill 2021, drwy fewnosod rheoliad 24 newydd yn Rheoliadau mis Ebrill 2020. O dan yr addasiad, nid yw'n ofynnol i gynghorau cymuned ddarparu bod cofnodion trafodion yn agored i'w harchwilio, ond yn lle hynny mae'n ofynnol iddynt ddarparu copïau o gofnodion ar gais. Caiff cyngor cymuned godi ffi resymol am ddarparu copïau o'r fath. Mae adran 55(1)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi cofnodion trafodion cyfarfodydd y cyngor yn electronig ac (i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol) unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cofnodion.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer addasu adran 26(3) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 drwy fewnosod rheoliad 25 newydd yn Rheoliadau mis Ebrill 2020, fel y bydd yr hysbysiad y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei roi ar gyfer cyfarfod sydd i'w gynnal i ystyried adroddiad neu argymhelliad Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan adran 25(4) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, yn cyd-fynd â'r ffaith y gallai cyfarfod o'r fath yn ystod y pandemig gael ei gynnal o bell, heb un lleoliad unigol.

Mae rheoliad 5 yn ychwanegu Atodlen at Reoliadau mis Ebrill 2020, ac yn gwneud addasiadau technegol cysylltiedig eraill.

<u>Atodlen i Reoliadau mis Ebrill 2020</u>

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn mewnosod Atodlen newydd yn Rheoliadau mis Ebrill 2020. Mae'r Atodlen yn nodi addasiadau i ddeddfiadau amrywiol sy'n codi o ganlyniad i'r addasiadau a wnaed gan Ran 4 o Reoliadau mis Ebrill 2020.

Mae paragraff 1 o'r Atodlen newydd yn addasu adran 41(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Mae adran 41 yn ymwneud â'r defnydd, fel tystiolaeth, o gofnodion wedi'u harwyddo ("*signed*") o drafodion cyfarfodydd awdurdodau lleol. Mae'r addasiad yn darparu bod geiriad adran 41 yn gyson â'r ffaith bod Rheoliadau mis Ebrill 2020 yn darparu ar gyfer llofnodi *neu ddilysu* ("*signed or authenticated*") cofnodion cyfarfodydd awdurdodau lleol.

Mae paragraff 2 o'r Atodlen newydd yn gwneud addasiadau penodol i reoliadau 26, 27 a 28 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001.

Mae'r addasiad i reoliad 26 yn dechnegol, gan ystyried yr addasiadau a wnaed yn Rheoliadau mis Ebrill 2020 i'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 26.

Mae'r addasiadau i reoliad 27 yn ymwneud â chyhoeddi hysbysiadau a dogfennau eraill sy'n gysylltiedig ag un o gyfarfodydd pwyllgor safonau prif gyngor ar wefan y cynghorau cymuned yn ardal y prif gyngor. Mae'r ddarpariaeth bresennol (paragraffau (1) i (3) o reoliad 27) yn darparu y caiff y prif gyngor ddarparu i hysbysiadau a dogfennau o'r fath gael eu cyhoeddi a darparu eu bod yn agored i gael eu harchwilio yn swyddfeydd y cynghorau cymuned o dan sylw, amgylchiadau nad ydynt yn ymarferol yn y pandemig presennol.

Mae'r addasiadau i reoliad 28 yn sicrhau bod y gofynion mewn perthynas â llunio a dilysu cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau safonau a gynhelir ar ôl 21 Gorffennaf 2020 a chyn 1 Mai 2021 yn gyson â'r gofynion ar gyfer cyfarfodydd eraill awdurdodau lleol fel y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau mis Ebrill 2020.

Mae paragraff 3 o'r Atodlen newydd yn gwneud addasiadau penodol i adrannau 24 a 26 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel y bydd y trefniadau y mae rhaid i awdurdod lleol eu gwneud ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfod,

ei gynnal ac adrodd amdano, y mae rhaid ei gynnal i ystyried adroddiad o dan adran 22 o’r Ddeddf (Adroddiad Budd y Cyhoedd), yn gyson â’r trefniadau y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau mis Ebrill 2020.

**5. Ymgynghori**

Mae’r Rheoliadau Diwygio yn bennaf yn gwneud addasiadau sy’n codi o ganlyniad i Reoliadau mis Ebrill 2020, ac maent yn gyson â’r hyn a wnaed yn Rheoliadau mis Ebrill 2020. Yn sgil bygythiad difrifol y coronafeirws nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi’i gynnal mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriadau cynghori gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff sy’n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru a chyrff eraill.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i gynnal ymhellach i God Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth ac yn sgil yr angen i wneud y Rheoliadau hyn ar fyrder.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020** |
| **DYDDIAD** | **30 Mehefin 2020** |
| **GAN** | **Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol** |

Heddiw yn y Senedd rwyf wedi cyflwyno Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") sy'n diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020 ("Rheoliadau mis Ebrill 2020").
Dolen isod:

https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld13268/sub-ld13268%20-w.pdf

Mae Rheoliadau mis Ebrill 2020 yn gwneud darpariaeth dros dro i ddarparu hyblygrwydd i awdurdodau lleol (gan gynnwys gweithrediaethau awdurdodau lleol) gwrdd yn ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon yn ystod pandemig COVID-19. Mae Rheoliadau mis Ebrill 2020 yn galluogi cyfarfodydd awdurdodau lleol i gael eu cynnal lle bo'r holl gyfranogwyr neu rai ohonynt yn ymuno o bell, gan gadw'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol drwy ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau cyfarfod gael eu cyhoeddi'n electronig.

Ar y cyfan, mae'r darpariaethau diwygio yn delio â mân faterion a materion technegol yn ymwneud â Rheoliadau mis Ebrill 2020. Maent yn cynnwys darpariaeth, er enghraifft, i sicrhau bod yr hysbysiad a roddir cyn cyfarfodydd i ystyried adroddiadau penodol o dan Ddeddf  Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a darpariaethau yn ymwneud â chofnodion cyfarfodydd pwyllgorau safonau yn gyson â'r trefniadau a gyflwynwyd gan Reoliadau mis Ebrill 2020.

Mae Rheoliadau mis Ebrill 2020 yn darparu hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynnal cyfarfodydd y mae'n ofynnol iddynt (yn rhinwedd deddfiad neu offeryn arall) eu cynnal cyn 1 Mai 2021 (heblaw am gyfarfodydd blynyddol penodol) ar unrhyw ddiwrnod ac ar unrhyw amser cyn 1 Mai 2021 y mae'r awdurdod lleol yn ei bennu. Serch hynny, mae nifer bach o gyfarfodydd y mae'n ofynnol yn ôl statud iddynt eu cynnal o fewn cyfnod penodedig ar ôl i adroddiadau penodol gael eu hanfon i awdurdodau (neu at aelodau, yn ôl y digwydd). Ar ôl ystyried y peth, rwyf wedi dod i'r casgliad bod pwnc cyfarfodydd o'r fath mor ddifrifol fel nad

yw hi er budd y cyhoedd i'r hyblygrwydd a ddarperir gan Reoliadau mis Ebrill 2020 fod yn gymwys i'r cyfarfodydd y mae'n ofynnol iddynt eu cynnal o dan y darpariaethau a restrir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Diwygio.

Mae'n hanfodol bwysig bod sefydliadau democratiaeth leol yn parhau i weithredu yn ystod y cyfnod hwn a bod aelodau etholedig a phobl leol yn cael y cyfle i graffu ar benderfyniadau awdurdodau lleol a'u herio. Gan ganiatáu amser i aelodau a swyddogion ymgyfarwyddo â chyfarpar a gweithdrefnau newydd, rwy'n falch o weld bod llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru wedi dechrau cwrdd unwaith eto.

Roedd yr ymateb i Reoliadau mis Ebrill 2020 yn gadarnhaol ac mae fy swyddogion a minnau wedi cael ceisiadau gan sawl un i wneud llawer o'r newidiadau yn rhai parhaol. Byddaf yn ystyried newidiadau o'r fath yn ofalus cyn gwneud penderfyniad terfynol, gan gynnwys yr effaith ar y ffordd o gynnal busnes awdurdodau lleol a'r effaith ar hygyrchedd.

Yn y cyfamser, rwy'n annog yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi bod yn fwy gofalus i fanteisio ar yr hyblygrwydd newydd ac ailgydio yn eu gwaith cyn gynted â phosibl. Byddaf yn parhau i fonitro'r sefyllfa a datblygiadau.

# SL(5)570 – Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") i ychwanegu rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 at y rhestr o ddeddfiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu datgymhwyso am gyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

Mae Rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gymuned, ysgol a reolir yn wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir ei dilyn i newid amserau ei sesiynau ysgolion.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r tabl ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf 2020 er mwyn ychwanegu'r gallu i addasu rhai adrannau o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cyhoeddwyd yr hysbysiadau cysylltiedig - sef *Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2020* a'r *Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2020* ar 25 Mehefin 2020 a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Gweithdrefn

Gwneud Cadarnhaol: mae'r Rheoliadau eisoes wedi eu gwneud, ond mae angen i'r Senedd eu cymeradwyo er mwyn iddynt barhau mewn grym am ragor nag 28 diwrnod.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

1. Mae'r pennawd gweithdrefnol yn cyfeirio at adran 94(4)(b) o Ddeddf 2020, a pharagraff 8 o Atodlen 17 iddi, sef y darpariaethau sy'n rhagnodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i'r Rheoliadau hyn ei dilyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol, fodd bynnag, yn darparu:

> *"Gwneir y Rheoliadau hyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellir ym mharagraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf 2020.*
> *Fel yr amlinellir ym mharagraff 8 o Atodlen 17, gwneir y Rheoliadau heb osod drafft gerbron y Senedd a heb gymeradwyaeth y Senedd."*

Gan fod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf 2020, mae paragraff 8(4) yn rhagnodi'r weithdrefn berthnasol i'w dilyn. Nid yw'n ymddangos bod adran 94(4)(b) yn berthnasol.

2. Mae'r rhaglith i'r Rheoliadau hyn yn dyfynnu'r pwerau galluogi fel adran 92 o Ddeddf 2020, a pharagraff 8 o Atodlen 17 iddi.

Mae paragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n diwygio’r rhestr ym mharagraff 7(5) neu’r tabl ym mharagraff 7(6) o Ddeddf 2020 er mwyn ychwanegu deddfiad sy’n ymwneud (yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol) â phlant, addysg neu hyfforddiant, neu i amrywio neu ddileu cofnod.

Mae’n ymddangos nad yw adran 92 yn bŵer galluogi perthnasol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

3. Gwnaed y Cod Trefniadaeth Ysgolion (“y Cod”) gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae’r Rheoliadau hyn yn cynnwys cyfeiriadau sy’n dyfynnu bod y Cod wedi’i wneud o dan “adran**nau** 38 ”[*ychwanegwyd pwyslais*] yn hytrach nag o dan “adrannau 38 a 39”. Mae’r cyfeiriadau anghyflawn i’w gweld yn y lleoedd a ganlyn:

(a) Rheoliad 2(3), tudalen 4, llinell 19

(b) Rheoliad 2(3), tudalen 4, llinell 36

(c) Rheoliad 2(3), tudalen 5, llinell 5

(ch) Rheoliad 4(1), tudalen 6, llinell 4

4. Yn Rheoliad 3(3) hepgorwyd y gair “cyn” ar ôl y geiriau “heb doriad,”.

5. Yn rheoliad 4(2) diffinnir “hysbysiad perthnasol” at ddibenion y rheoliad hwnnw fel hysbysiad o dan baragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf 2020. Mae’r Pwyllgor yn cwestiynu a ddylai’r diffiniad gyfeirio’n benodol at baragraff 7 (6), gan fod paragraff 7(6) yn caniatáu i addasiadau gael eu gwneud i baragraffau 3.4, 3.5 neu 4.1 o’r Cod drwy hysbysiad.

Byddai cyfeirio at baragraff 7(6) yn hytrach na chyfeiriad cyffredinol at baragraff 7 yn gyson â’r dull a ddefnyddir yn rheoliadau 3(5) a 3(6), lle mae’r diffiniadau’n cyfeirio at hysbysiadau a wnaed o dan baragraff 7(5)(n) (yn hytrach na pharagraff 7) o Atodlen 17 i Ddeddf 2020.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

1. Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hynny yn sgîl y sefyllfa ddigynsail a grëwyd gan bandemig y Coronafeirws a’r amserlen heriol ar gyfer gwneud y Rheoliadau.

Nodir y cynhaliwyd gwaith ymgysylltu rheolaidd â’r prif gyrff cynrychioladol, fel Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW), a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, i helpu i lywio’r cynigion polisi ynghylch y gofynion deddfwriaethol a gaiff eu haddasu neu eu datgymhwyso. Mae’r trafodaethau hyn wedi helpu i lywio’r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau hyn.

Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi na chwblhawyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn gan nad oes unrhyw gostau na buddion cysylltiedig. Nid yw’r Rheoliadau hyn ond yn ychwanegu meysydd at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(5) a pharagraff 7(6) o

Atodlen 17 i Ddeddf 2020 y caiff Gweinidogion Cymru wneud hysbysiadau yn eu cylch i ddatgymhwyso gofynion statudol.

O ran unrhyw hysbysiadau a wneir, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd manylion am effaith y rhain mewn asesiad effaith integredig.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â'r pwynt technegol a godwyd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**6 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 94(4)(b) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (p. 7) a pharagraff 8 o Atodlen 17 iddi, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

**2020 Rhif 640 (Cy. 147)**

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") yn nodi'r deddfiadau y caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad o dan baragraff 7(1)(a) o'r Atodlen honno, eu datgymhwyso am gyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio'r rhestr ym mharagraff 7(5) i ychwanegu rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 (O.S. 2009/572 (Cy. 54). Mae'r darpariaethau hyn yn nodi gweithdrefnau y mae rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir eu dilyn er mwyn newid amserau sesiynau ysgolion.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol fel bod unrhyw newid i amserau sesiynau ysgolion a weithredir yn ystod y cyfnod pan fo hysbysiad yn cael effaith yn cael ei wrthdroi ar ôl i'r hysbysiad beidio â chael effaith.

Mae'r tabl ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf 2020 yn nodi'r deddfiadau y caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno, eu haddasu am gyfnod a bennir yn yr hysbysiad ac yn nodi ym mha fodd y caniateir iddynt gael eu haddasu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio'r tabl i ychwanegu cofnodion newydd ar gyfer darpariaethau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("y Cod") sy'n ymwneud ag ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion, sy'n nodi'r addasiadau y caniateir iddynt gael eu gwneud i'r darpariaethau hynny drwy hysbysiad o dan baragraff 7(1)(b) o Atodlen 17 i Ddeddf 2020.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth drosiannol i addasiad a wneir drwy hysbysiad sy'n ymwneud â'r Cod barhau i gael effaith ar ôl i'r hysbysiad ddod i ben mewn cysylltiad ag ymgynghoriad o dan y Cod sydd ar agor ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 94(4)(b) o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (p. 7) a pharagraff 8 o Atodlen 17 iddi, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 640 (Cy. 147)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

*Gwnaed* *am 10.53 a.m. ar 25 Mehefin 2020*

*Yn dod i rym am 12.00 p.m. ar 25 Mehefin 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 2.00 p.m. ar 25 Mehefin 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 92 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 a pharagraff 8 o Atodlen 17 iddi(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 12.00 p.m. ar 25 Mehefin 2020.

(**1**) 2020 p. 7.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020**

**2.**—(1) Mae Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 7(5), ar ôl paragraff (m), mewnosoder—

"(n) regulations 3 and 4 of the Changing of School Session Times (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/572 (W. 54))".

(3) Ym mharagraff 7(6), yn y tabl, ar ôl y cofnod ar gyfer Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(**1**), mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| "School Organisation Code made by the Welsh Ministers under sections 38 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (Statutory Code Document Number 011/18) | Paragraph 3.4 (consultation document) | Paragraph 3.4 has effect as if the references to "school day" include a day on which there would have been a school session but for any restriction on the attendance of pupils at the school in connection with the prevalence of coronavirus. |
| School Organisation Code made by the Welsh Ministers under sections 38 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (Statutory Code Document Number 011/18) | Paragraph 3.5 (consultation with children and young people) | Any duty imposed on a person by paragraph 3.5 is to be treated as discharged if the person has used reasonable endeavours to discharge the duty. |
| School Organisation | Paragraph 4.1 (manner of | Paragraph 4.1 has effect as |

(**1**) O.S. 2010/2574 (Cy. 214).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Code made by the Welsh Ministers under sections 38 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (Statutory Code Document Number 011/18) | publication) | if the references to "school day" include a day on which there would have been a school session but for any restriction on the attendance of pupils at the school in connection with the prevalence of coronavirus." |

**Darpariaeth drosiannol: Newid amserau sesiynau ysgolion**

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo hysbysiad perthnasol wedi dod i ben.

(2) Mae unrhyw newid i amserau sesiynau ysgol a weithredir yn ystod y cyfnod pan fo'r hysbysiad perthnasol neu hysbysiad blaenorol yn cael effaith yn peidio â chael effaith.

(3) Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol sicrhau bod amserau sesiynau'r ysgol yn dychwelyd i'r amserau sesiynau yr oedd yn ofynnol eu gweithredu yn union cyn i'r hysbysiad gael ei roi neu, pan mai'r hysbysiad olaf mewn cyfres o hysbysiadau o'r fath i gael effaith yn olynol heb doriad ydyw, cyn i'r unig hysbysiad blaenorol neu'r hysbysiad blaenorol cyntaf gael ei roi (yn ôl y digwydd).

(4) Nid yw paragraff (3) yn effeithio ar bwerau corff llywodraethu ysgol neu awdurdod lleol i newid amserau sesiynau ysgolion yn unol â Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009(**1**) ("Rheoliadau 2009").

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "hysbysiad perthnasol" yw hysbysiad a wneir o dan baragraff 7(5)(n) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (datgymhwyso Rheoliadau 2009) neu, yn achos cyfres o hysbysiadau o'r fath sy'n cael effaith yn olynol heb doriad, yr hysbysiad olaf yn y gyfres.

(6) Yn y rheoliad hwn, ystyr "hysbysiad blaenorol" yw hysbysiad a wneir o dan baragraff 7(5)(n) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n ffurfio rhan o gyfres o hysbysiadau o'r fath gan gynnwys yr hysbysiad perthnasol sy'n cael effaith yn olynol heb doriad.

(**1**) O.S. 2009/572 (Cy. 54).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Darpariaeth drosiannol: y Cod Trefniadaeth Ysgolion**

**4.**—(1) Pan fo ymgynghoriad neu gyfnod gwrthwynebu o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 38 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**) ("y Cod") ar agor ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod a bennir mewn hysbysiad perthnasol, mae'r addasiad i'r Cod a wneir gan yr hysbysiad yn parhau i gael effaith mewn perthynas â'r ymgynghoriad a'r cyfnod gwrthwynebu ar ôl i'r hysbysiad ddod i ben.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "hysbysiad perthnasol" yw hysbysiad o dan baragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 sy'n addasu paragraff 3.4, 3.5 neu 4.1 o'r Cod yn y modd a ddisgrifir ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
Am 10.53 a.m. ar 25 Mehefin 2020

---

(**1**) Dogfen Cod Statudol Rhif 011/18

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020.

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
25 Mehefin 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") gan ychwanegu Rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 at y rhestr o ddeddfiadau y gall Gweinidogion Cymru eu datgymhwyso am gyfnod penodedig drwy hysbysiad.

Mae Rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 yn amlinellu'r weithdrefn i'w dilyn gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol, neu ysgol feithrin a gynhelir er mwyn newid amser sesiwn ysgol.

Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r tabl ym mharagraff 7(6) o Atodlen 17 i Ddeddf 2020 gan ychwanegu'r gallu i addasu rhai adrannau o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. [1]

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellir ym mharagraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf 2020.

Fel yr amlinellir ym mharagraff 8 o Atodlen 17, gwneir y Rheoliadau heb osod drafft gerbron y Senedd a heb gymeradwyaeth y Senedd. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd bod hwn yn fater brys, fod angen gwneud y Rheoliadau heb osod drafft a chael cymeradwyaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Caiff y Rheoliadau eu gosod gerbron y Senedd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl eu gwneud. Ni fydd y Rheoliadau yn weithredol ar ôl cyfnod o 40 diwrnod (heb gynnwys cyfnod toriad), gan ddechrau y diwrnod y gwneir yr offeryn, oni bai bod y Rheoliadau, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae paragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf 2020 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu darpariaethau sy'n ymwneud â phlant, addysg neu hyfforddiant at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(5) a'r tabl ym mharagraff 7(6) o Ddeddf 2020 y gellir eu datgymhwyso neu eu haddasu gan Weinidogion Cymru am gyfnod penodedig drwy hysbysiad.

<u>Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 ('Rheoliadau 2009')</u>

[1] Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Mae Adran 32C o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi mai'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu amserau sesiynau ysgolion. Fodd bynnag, lle mae awdurdod lleol yn ystyried bod angen newid amser sesiwn ysgol a gynhelir, neu y byddai newid amser sesiwn yn fwy cyfleus, er mwyn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy neu er mwyn gwneud trefniadau teithio yn fwy effeithlon neu effeithiol, gall bennu amser dechrau sesiwn gyntaf yr ysgol ac amser diwedd yr ail sesiwn (neu os mai un sesiwn yn unig sydd yna, ei dechrau a'i diwedd).

Mae Rheoliadau 2009 a wnaed o dan Adran 32C(5) o Ddeddf Addysg 2002 yn amlinellu'r weithdrefn y mae'n rhaid i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir ei dilyn er mwyn newid amser sesiwn ysgol.

Mae Rheoliad 3 o Reoliadau 2009 yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn gan yr awdurdod lleol wrth gynnig newid amser sesiwn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys ymgynghori â'r corff llywodraethu, y pennaeth ac aelodau staff eraill yn yr ysgol, a chynnal cyfarfod â rhieni disgyblion yr ysgol. Rhaid i'r awdurdod roi tri mis o rybudd o leiaf ynghylch y newid, a dim ond ar ddechrau blwyddyn ysgol y gellir gweithredu'r newid. Dim ond os yw awdurdod lleol o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu y byddai'n fwy cyfleus o ran—

(a) hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy yn ystyr Adran 11 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2), neu

(b) gwneud trefniadau teithio a luniwyd, neu sydd i'w llunio, gan yr awdurdod o dan y Mesur hwnnw, yn fwy effeithiol neu effeithlon

y caiff awdurdod lleol roi hysbysiad.

Mae Rheoliad 4 o Reoliadau 2009 yn amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn gan y corff llywodraethu pan fydd yn cynnig newid amser sesiwn ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. Nid yw'r rheoliad hwn yn berthnasol i ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys ymgynghori â'r awdurdod lleol a staff yr ysgol, a chynnal cyfarfod â rhieni disgyblion yr ysgol cyn gwneud newid. Os yw'r newid yn ymwneud ag amser dechrau sesiwn ysgol yn y bore neu ddiwedd sesiwn ysgol yn y prynhawn, rhaid i'r corff llywodraethu roi tri mis o rybudd o leiaf ynghylch y newid, a dim ond ar ddechrau blwyddyn ysgol y gellir gweithredu'r newid. Fel arall, rhaid iddo roi chwe wythnos o rybudd o leiaf, a dim ond ar ddechrau tymor ysgol y gellir gweithredu'r newid.

Y Cod Trefniadaeth Ysgolion

Caiff y Cod Trefniadaeth Ysgolion ei lunio o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'n gosod gofynion y mae'n rhaid i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr eraill) weithredu yn unol â nhw.

Mae Adran 48 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ynghylch cynigion cyn eu cyhoeddi. Mae paragraff 3.4 o'r Cod yn nodi bod yn rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgol neu'r ysgolion y mae'r cynnig yn ymwneud â hi/nhw, a bod yn rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i'r ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, ac 20 ohonynt yn ddiwrnodau ysgol. Ystyrir bod unrhyw ddiwrnod pan fydd yna sesiwn ysgol yn yr ysgol yn ddiwrnod ysgol[2]. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn fore neu'n sesiwn brynhawn, felly mae unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu ran o'r diwrnod yn ddiwrnod ysgol.

Mae paragraff 3.5 o'r Cod yn nodi bod yn rhaid i gynigwyr wneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol yr effeithir arni. Rhaid i hyn gynnwys ymgynghoriad â chynghorau'r ysgolion dan sylw o leiaf. Rhaid i gyrff llywodraethu helpu i hwyluso'r elfen hon o'r broses ymgynghori. O ystyried y cyfyngiadau presennol ar gynulliadau o fwy na 2 o bobl a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae'n bosibl na fydd modd i gynghorau ysgolion gyfarfod.

Os, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd y cynigydd yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol a threfnu cyfnod 28 diwrnod pan all unrhyw un wrthwynebu. Mae paragraff 4.1 o'r Cod yn nodi bod yn rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol, a bod yn rhaid i'r cyfnod gwrthwynebu gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ogystal â'r diwrnod cyhoeddi).

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Ar 3 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai ysgolion yn cynyddu eu gweithgarwch o 29 Mehefin, fel bod pob dysgwr yn cael cyfle i 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi'.

<u>Newid amserau sesiynau ysgolion</u>

Mae llawer o ysgolion yn debygol o weithredu trefniadau lle bydd grwpiau dysgwyr yn dechrau ac yn gorffen ar adegau gwahanol, ac yn cael eu hamserau cinio hefyd ar adegau gwahanol, er mwyn sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol.

Bydd datgymhwyso'r weithdrefn yn rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau 2009 yn caniatáu i ysgolion ymateb yn gyflym a mynd ati i strwythuro eu diwrnod er mwyn bodloni anghenion eu disgyblion yn y ffordd orau a helpu o ran cadw pellter cymdeithasol. Bydd cael gwared â'r gofyniad i newidiadau ddod i rym ar ddechrau tymor ysgol neu flwyddyn ysgol yn galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i weithredu'n gyflym i roi'r newidiadau dros dro hyn ar waith mewn pryd ar

[2] Adran 579 o Ddeddf Addysg 1996

gyfer y cyfnod newydd i ysgolion ar 29 Mehefin.

Mae’r rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy’n ymwneud â newid amserau sesiynau ysgolion. Mae’r rhain yn sicrhau bod unrhyw newid i amserau sesiynau a weithredir tra bydd hysbysiad yn weithredol yn dod i ben pan na fydd yr hysbysiad yn weithredol mwyach. Mae’r darpariaethau trosiannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i’r corff llywodraethu ailsefydlu’r amserau a oedd i’w gweithredu cyn i’r hysbysiad ddod yn weithredol. Mae hyn yn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i amserau sesiynau, a wneir heb gydymffurfio â’r weithdrefn yn rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau 2009, yn cael eu gwneud yn barhaol.

<u>Y Cod Trefniadaeth Ysgolion</u>

Mae’r rheoliadau yn ychwanegu deddfiadau i’r tabl addasu yn Atodlen 17 fel bod nodyn a gyhoeddir yn gallu diwygio dros dro baragraffau 3.4 o’r Cod (dogfen ymgynghori) a 4.1 (y cyfnod gwrthwynebu) fel bod y cyfeiriadau at “diwrnod ysgol” yn cynnwys diwrnodau pan fyddai sesiwn ysgol wedi’i chynnal pe na bai cyfyngiad ar ddisgyblion rhag dod i’r ysgol mewn cysylltiad â’r coronafeirws.

Mae’r rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer addasiad sy’n golygu bod hysbysiad yn gallu diwygio dros dro baragraff 3.5 (ymgynghori â phlant a phobl ifanc). Dylid ystyried bod unrhyw ddyletswydd sydd ar berson yn sgil paragraff 3.5 wedi’i chyflawni os yw’r person wedi cymryd camau rhesymol i gyflawni’r ddyletswydd.

Mae gweddill gofynion y Cod yn dal i fod yn berthnasol. Er enghraifft, bydd yn dal i fod yn ofynnol i’r rheini sy’n cyflwyno cynigion gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled ac ar ffurf electronig ar eu gwefan, a darparu copïau caled yn ôl y gofyn. Byddai’n dal i fod yn ofynnol iddynt roi gwybod i’r ‘ymgyngoreion statudol’, drwy lythyr neu e-bost, fod y ddogfen ymgynghori ar gael, ac y gellir gofyn am gopi caled o’r ddogfen os dymunir.

## 5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn, yng ngoleuni’r sefyllfa na welwyd ei thebyg yn sgil pandemig y coronafeirws, a’r amserlenni heriol ar gyfer eu llunio.

Fodd bynnag, ymgysylltwyd yn rheolaidd â’r prif gyrff cynrychiadol megis Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a chynrychiolwyr awdurdodau lleol wrth lunio’r cynigion polisi o amgylch y gofynion deddfwriaethol sy’n mynd i gael eu haddasu neu eu datgymhwyso. Mae’r trafodaethau hyn wedi helpu i lywio’r darpariaethau sydd wedi’u cynnwys yn y rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn gan nad oes unrhyw gostau na manteision cysylltiedig. Dim ond ychwanegu meysydd at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(5) a pharagraff 7(6) y gall Gweinidogion Cymru wneud hysbysiadau mewn perthynas â nhw i ddatgymhwyso neu addasu gofynion statudol y mae’r rheoliadau hyn.

Caiff manylion effaith unrhyw hysbysiadau a wneir eu nodi mewn asesiad effaith integredig. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gostau na manteision i’r sector preifat na’r sector gwirfoddol, nac i elusennau. O ran ysgolion, nid yw’n debygol y gwelir unrhyw fanteision na chostau net.

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Mehefin 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 a ddaw i rym ar 25 Mehefin. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Daw'r offeryn hwn i rym cyn y caiff ei osod gerbron y Senedd. Mae ei angen er mwyn gallu cyhoeddi hysbysiad i addasu gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion a datgymhwyso gofynion Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009. Mae ei angen er mwyn caniatáu i gynlluniau trefniadaeth ysgolion barhau lle mae ysgolion ar gau ar hyn o bryd neu lle gallent gau yn y dyfodol oherwydd y coronafeirws, ac er mwyn caniatáu i ysgolion gynllunio eu hamserau dechrau a gorffen wrth groesawu mwy o ddysgwyr o 29 Mehefin.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf Coronafeirws, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 25 Medi 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallai fod o gymorth i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 15 Gorffennaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad , Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau. a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(5)573 – The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2020

## Background and Purpose

These Regulations are the latest amendments made by the Welsh Ministers to the coronavirus restrictions that apply in Wales.

The amendments:

- enable members of a household to agree with one other household to form an extended household,
- revoke the requirement not to leave the area local to the place where a person is living without a reasonable excuse,
- clarify that indoor visitor attractions are required to be closed,
- clarify that it is a reasonable excuse to gather with others to participate in activities organised at outdoor visitor attractions, but only in accordance with the physical distancing requirements.

## Procedure

Made affirmative.

The Regulations were made by the Welsh Ministers before they were laid before the Senedd. The Senedd must approve the Regulations within 28 days (excluding any days when the Senedd is: (i) dissolved, or (ii) in recess for more than four days) of the date they were made for them to continue to have effect.

## Technical Scrutiny

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

## Merits Scrutiny

The following four points are identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument.

**1. Standing Order 21.3(ii): that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

Human rights

Despite the continued easing of coronavirus restrictions, there are still restrictions in place that impact upon the daily lives of people in Wales. Where those restrictions interfere with human rights, the interference still needs to be justified.

Regarding justification, we note the approach taken by the courts regarding judicial review of coronavirus regulations in England. Although the England coronavirus regulations are different from the Wales coronavirus regulations, the underlying principles are largely the same.

In ***Dolan v Secretary of State* [2020] EWHC 1786 (Admin)**, the High Court decided that restrictions in England did **not breach** the following articles of the European Convention on Human Rights (the Convention): Article 5 (right to liberty and security), Article 8 (right to respect for private and family life), Article 11 (freedom of assembly and association), Article 1 of Protocol 1 (protection of property).

In reaching its decision, the court:

- referred to the coronavirus pandemic as presenting "truly exceptional circumstances",
- said that the restrictions had a clear legitimate aim, "namely the reduction of the incidence and spread of coronavirus",
- emphasised the importance that the restrictions: (i) were time-limited to 6 months, (ii) must be reviewed regularly, and (iii) must end as soon as they are no longer necessary to meet the public health threat,
- decided that any interference with human rights was proportionate.

As noted above, these underlying principles are also broadly applicable to the Wales restrictions. Nevertheless, we raise the following questions:

(1) Regarding Article 5, it appears to us that the court did not consider that there was any deprivation of liberty and therefore there was no need to consider the exceptions to Article 5.

The Explanatory Memorandum to the Regulations says that Article 5 is engaged. Can the Welsh Government set out which restrictions engage Article 5?

(2) The court dealt individually with each human right that was in play, using separate headings for discussion about each human right and, where relevant, setting out the various competing considerations that arose. See, for example, paragraphs 76 to 78 of the judgment, which discuss Article 8.

Does the Welsh Government believe there would be advantage in adopting a similar approach in Explanatory Memorandums, particularly for legislation that has a significant impact on human rights, such as the coronavirus restrictions?

(3) The court did not come to a conclusion as to whether the England restrictions breached Article 9 of the Convention (freedom of thought, conscience and religion). The court adjourned its consideration of Article 9, but nevertheless noted the potential for the England restrictions to engage Article 9.

The Explanatory Memorandum to the Regulations lists various human rights that are engaged by the Wales restrictions, but it does not include Article 9. Given that restrictions still apply to, for example, prayer that forms part of communal worship in Wales, does the Welsh Government believe that Article 9 is engaged?

**2. Standing Order 21.3(ii): that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

Equality

In a **webinar** organised by Swansea University School of Law on 18 June 2020, Jeremy Miles MS, Counsel General, said that: "Covid is exacerbating pre-existing inequalities in our society"[1] and, with regard to the measures the Welsh Government could potentially take in response to the pandemic, the Welsh Government will always "evaluate the potential steps against an equality lens".[2]

The Wales restrictions have now been made / amended seven times, but we can find no reference to equality in any of the seven Explanatory Memorandums laid before the Senedd.

Public bodies, including the Welsh Ministers, have a duty under regulation 8 of the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011 to assess and monitor the impact of its policies on equality. In particular, the Welsh Ministers must make such arrangements as they consider appropriate to publish reports of the equality impact assessments they have carried out.

With regard to the making and amending of the Wales restrictions, can the Welsh Government outline what steps it has taken to comply with the duties in regulation 8 of the 2011 Regulations, in particular the duty to publish reports under regulation 8(1)(d)?

We raise this point at a time when equality matters more than ever – from global Black Lives Matter issues to local issues raised by the Older People's Commissioner for Wales in her report "**A snapshot of life in care homes in Wales during Covid-19**".

**3. Standing Order 21.3(ii): that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

Cross-border issues

The Welsh Government "**Guidance on extended households: coronavirus**" states:

> "Extended households can be cross-border – for example, a household in Wales can join with a household in England – but the arrangements will need to comply with the rules in both countries."

As set out in the Public Health (Control of Disease) Act 1984, the Wales restrictions apply "as respects Wales", and the England restrictions apply "as respects England".

The Wales restrictions do not make express reference to cross-border issues. Can the Welsh Government clarify how the Wales restrictions relating to extended households can capture households in England? In effect, this is a call for clarity on the meaning of "as respects Wales".

[1] At 1:20:45
[2] At 1:21:25

**4. Standing Order 21.3(ii): that it is of political or legal importance or gives rise to issues of public policy likely to be of interest to the Senedd**

Welsh Government Guidance

On 8 June 2020, Vaughan Gething MS, Minister for Health and Social Care, gave evidence to us on the Wales restrictions. He said: "We actually want to have something that helps the public to understand how they can follow the rules, and that's why the guidance is really important as well".

However, we note that (at the time of writing, 9 July 2020) the Welsh Government guidance "**Coronavirus: what does the law in Wales say?**" refers to law that is no longer in force. For example, the guidance says that people are still required to stay at home. But this has not been a legal requirement since 1 June 2020.

## Implications arising from exiting the European Union

None.

## Government Response

A Welsh Government response is required to the four merits points raised in this report.

**Legal Advisers**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**
**9 July 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 686 (Cy. 153)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n galluogi aelodau o aelwyd i gytuno ag un aelwyd arall i ffurfio aelwyd estynedig, a phan fo aelwyd estynedig wedi ei ffurfio, ystyr cyfeiriadau yn y prif Reoliadau at "aelwyd" yw'r aelwyd estynedig;

(b) sy'n dirymu'r gofyniad yn y prif Reoliadau i beidio â gadael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae person yn byw oni bai bod gennych esgus rhesymol;

(c) sy'n symleiddio'r cyfyngiadau gwahanol ar ymgynnull o dan do ac yn yr awyr agored sydd ar hyn o bryd yn rheoliadau 8 ac 8B o'r prif Reoliadau;

(d) sy'n egluro ei bod yn ofynnol cau atyniadau o dan do i ymwelwyr;

(e) sy'n egluro ei bod yn esgus rhesymol ymgynnull gydag eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu trefnu mewn atyniadau awyr agored i ymwelwyr, ond dim ond yn unol â'r gofynion cadw pellter corfforol yn rheoliad 6 o'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 686 (Cy. 153)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

*Gwnaed am 12.30 p.m. ar 3 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 3.30 p.m ar 3 Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym 6 Gorffennaf 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

---

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 a deuant i rym ar 6 Gorffennaf 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1, ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(6) Os yw dwy aelwyd yn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn (ac eithrio ym mharagraffau (7) ac (8)) at "aelwyd" i'w ddehongli fel petai'n cynnwys y ddwy aelwyd.

(7) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig rhaid i bob oedolyn ar y ddwy aelwyd gytuno.

(8) Ond—

(a) dim ond gydag un aelwyd arall y caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd estynedig, a

(b) os yw'r ddwy aelwyd yn peidio â chytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig, ni chaiff y naill aelwyd na'r llall gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd o dan baragraff (6) gydag unrhyw aelwyd arall."

(3) Yn lle rheoliad 8 rhodder—

"**8.**—(1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol—

---

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/497 (Cy. 118)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/529 (Cy. 124)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/557 (Cy. 129)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/619 (Cy. 141)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) ymgynnull yn yr awyr agored gydag unrhyw berson arall oni bai am—

(i) aelodau o'i aelwyd neu aelodau o ddim mwy nag un aelwyd arall,

(ii) gofalwr iddo, neu

(iii) person y mae'n darparu gofal iddo;

(b) ymgynnull mewn mangre o dan do gydag unrhyw berson arall oni bai am—

(i) aelodau o'i aelwyd,

(ii) gofalwr iddo, neu

(iii) person y mae'n darparu gofal iddo.

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol—

(a) cael cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 42 o Atodlen 1 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;

(b) darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

(c) darparu neu gael cynhorthwy brys;

(d) rhoi gwaed;

(e) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

(f) pan fo'r person yn athletwr elît, hyfforddi neu gystadlu;

(g) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil—

(i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,

(ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil.

(h) mynd i angladd—

(i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,

(ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;

(i) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(j) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol neu gael y gwasanaethau hynny, gan gynnwys —

(i) gofal plant neu wasanaethau addysgol;

(ii) gwasanaethau cymdeithasol;

(iii) gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;

(iv) gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr (megis dioddefwyr trosedd neu drais domestig);

(k) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(l) symud cartref;

(m) paratoi eiddo preswyl i bersonau symud i mewn;

(n) ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl nad yw wedi ei feddiannu—

(i) ymweld ag asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr neu gartrefi arddangos;

(ii) gweld eiddo o'r fath;

(o) cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan atyniadau awyr agored;

(p) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

(4) At ddibenion paragraff (2)(q), nid yw eiddo wedi ei feddiannu os nad oes unrhyw berson yn meddiannu'r eiddo fel preswylfa."

(4) Hepgorer rheoliad 8B.

(5) Yn rheoliad 10—

(a) hepgorer paragraffau (2), (3) a (4);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) ym mharagraff (5), yn lle "mae gan U gyfrifoldeb am blentyn os oes gan U" rhodder "mae gan unigolyn gyfrifoldeb am blentyn os oes gan yr unigolyn";

(c) hepgorer paragraff (6);

(d) ym mharagraff (7)—

(i) yn y testun Saesneg, hepgorer "together";

(ii) yn lle "8B" rhodder "8(1)";

(e) ym mharagraff (8A), yn lle "8B" rhodder "8(1)";

(f) ym mharagraff (10), ar ôl "rheoliad 11" mewnosoder "(gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth o ran a yw dwy aelwyd wedi ymrwymo i gytundeb yn unol â rheoliad 1(6))".

(6) Yn rheoliad 12(1)(a), hepgorer "8B".

(7) Yn Atodlen 1—

(a) yn Rhan 2 mewnosoder—

"**24A.** Atyniadau o dan do i ymwelwyr."

(b) yn Rhan 4 mewnosoder—

"**55.** Atyniadau awyr agored i ymwelwyr."

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**3.** Mae rheoliadau 12 a 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 12.30 p.m. ar 3 Gorffennaf 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

3 Gorffennaf 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn bwysig llacio'r cyfyngiadau a geir yn y prif Reoliadau cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

<u>Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol</u>

Nid yw'r diwygiadau a geir yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae'r prif Reoliadau'n cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i lacio'r cyfyngiadau drwy'r Rheoliadau diwygio hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau er y bydd gwneud hynny'n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Bydd y darpariaethau, i'r graddau y maent yn dileu'r gofyniad bod person yn aros yn lleol i'r man lle y mae'n byw, yn galluogi i'r hawliau o dan Erthyglau 5 ac 8 yn benodol gael eu harfer yn fwy rhydd o dan erthyglau 5 ac 8, er y gallent hefyd olygu bod modd i hawliau eraill gael eu harfer yn fwy. Yn benodol, bydd y darpariaethau sy'n caniatáu i aelwydydd ymuno i greu aelwydydd estynedig yn golygu bod modd i hawliau o dan Erthygl 8 gael eu harfer yn fwy.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal
Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y prif Reoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r prif Reoliadau bellach yn cael eu diwygio mewn dwy brif ffordd:

- Mae'r gofynion ar unigolion beidio â gadael nac aros i ffwrdd o'r ardal sy'n lleol i'w cartref wedi'u dileu; bydd hyn yn golygu y caiff unigolion nawr deithio i unrhyw fan.

- Galluogi pobl i ffurfio aelwyd estynedig, sef dwy aelwyd yn unig yn dod at ei gilydd. Bydd pobl mewn aelwyd estynedig yn cael eu trin fel un aelwyd er dibenion y prif Reoliadau.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae hefyd angen diwygio'r prif Reoliadau:

- I’w gwneud yn glir y bydd yn ofynnol cau atyniadau o dan do i ymwelwyr ac i ddarparu bod y rhai sy'n gyfrifol am atyniadau awyr agored, sy'n gallu agor o dan y prif Reoliadau, yn ddarostyngedig i'r gofyniad i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cynhelir 2 fetr o bellter rhwng pobl – sef y rhai sydd yn y fangre yn ogystal a’r rhai sy’n aros i fynd i mewn iddi.

- I resymoli'r gwahanol gyfyngiadau ar gynulliadau o dan do ac yn yr awyr agored a nodwyd yn flaenorol yn rheoliadau 8 a 8B o'r prif Reoliadau. Mae'r darpariaethau newydd hefyd yn dileu o’r rhestr o esgusodion y pethau nad ydynt yn berthnasol mwyach, naill ai oherwydd mai dim ond oherwydd y gofyniad i aros yn lleol yr oedd eu hangen neu oherwydd nad ydynt yn gyfystyr â "cynulliad" (fel y'i diffinnir yn awr).

Mae’r Rheoliadau diwygio hefyd yn gwneud y darpariaethau canlyniadol a’r darpariaethau arbedion sydd eu hangen o ganlyniad i’r newidiadau a amlinellir uchod.

Bydd y prif Reoliadau (a’r diwygiadau hyn) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym – daethant i rym ar 26 Mawrth 2020 felly byddant yn dod i ben ar 26 Medi 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo’r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r prif swyddogion meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n deillio o’r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau diwygio hyn. Mae unigolion a busnesau wedi cael gwybod am y cyfyngiadau yn y prif Reoliadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU. Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y bwriad i gyflwyno'r newidiadau hyn, pe bai’r amgylchiadau'n caniatáu hynny, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 19 Mehefin. Cadarnhaodd yn ei gynhadledd i’r wasg ar 3 Gorffennaf y byddai'r newidiadau'n cael eu gwneud, ac yn dod i rym ddydd Llun 6 Gorffennaf 2020.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

3 Gorffennaf 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddechrau 6 Gorffennaf 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn brys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid 'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 24 Medi 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygu'r Cyfyngiadau Symud a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **3 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ('y Rheoliadau') yn gorfodi cyfyngiadau ar gynulliadau, ar symudiadau pobl, ac ar weithrediaeth busnesau, gan gynnwys cau busnesau, yng Nghymru. Maent hefyd yn gorfodi gofynion ar fusnesau sydd ar agor i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unigolion yn cadw pellter corfforol oddi wrth ei gilydd. Gwnaed hyn er mwyn diogelu pawb rhag lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

O dan reoliad 3(2) mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am ofynion a chyfyngiadau yn y rheoliadau, a'u cymesuredd, bob 21 o ddiwrnodau. Cwblhawyd y pedwerydd adolygiad ar 18 Mehefin ac fe gynhelir yr adolygiad ffurfiol nesaf erbyn 9 Gorffennaf.

Ar 19 Mehefin, fe ymrwymais i adolygu'r gofyniad i aros yn lleol gyda'r bwriad o godi'r cyfyngiad hwn ar 6 Gorffennaf os oedd yr amodau'n caniatáu.

Mae nifer yr achosion newydd o COVID-19 a gadarnhawyd wedi parhau i leihau ers y brig yn y nifer o achosion ym mis Ebrill. Dros yr wythnos hyd at 22 Mehefin, roedd cyfartaledd o 16 o achosion newydd wedi'u cadarnhau i bob miliwn o bobl yng Nghymru bob dydd. Yn ogystal â hyn, mae'r gallu i brofi a'r nifer cyfartalog o brofion dyddiol yn parhau i gynyddu.

Ond rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o achosion yng Nghymru yn ystod yr wythnos ddiwethaf o ganlyniad i glystyrau yn y Gogledd ac ym Merthyr Tudful. Mae hyn yn pwysleisio nad yw'r risg wedi diflannu. Mae'r achosion newydd hyn wedi'u hadnabod yn gyflym ac rydym yn credu eu bod wedi'u rheoli. Y tu allan i'r clystyrau hyn rydym yn dal i weld nifer yr achosion yn lleihau ar draws Cymru. Byddwn yn dal i

fonitro'r sefyllfaoedd hyn yn agos wrth inni nesáu at yr adolygiad ffurfiol nesaf ar 9 Gorffennaf.

Rwy'n ddiolchgar i gymunedau lleol, awdurdodau lleol ac atyniadau ymwelwyr awyr agored sydd wedi defnyddio'r pythefnos ers 18 Mehefin i baratoi mannau cyhoeddus ar gyfer codi'r cyfyngiad 'aros yn lleol' yn unol â Chanllawiau Mannau Cyhoeddus Mwy Diogel Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 17 Mehefin. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y mannau hynny yn barod i dderbyn ymwelwyr yn fwy diogel na phe byddem wedi codi'r cyfyngiadau'n ddirybudd.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r effaith y bydd peidio â gallu teithio i weld ffrindiau a theulu sy'n byw y tu allan i ardal leol wedi'i chael ar lesiant pobl. Rwy'n ddiolchgar iawn i bobl Cymru am barhau i gadw at y cyfyngiad hwn ac am ddeall ein dull bwriadol a gofalus o lacio'r cyfyngiadau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ein prif amcan o hyd yw Diogelu Cymru.

Rwy'n falch iawn o roi gwybod bod yr amodau yn gyffredinol yn awr yn fy ngalluogi i gadarnhau y byddwn ni'n codi'r cyfyngiadau 'aros yn lleol' o ddydd Llun 6 Gorffennaf.

Bydd hyn yn galluogi atyniadau awyr agored i agor os ydynt yn gallu sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol rhwng pobl a gweithredu'n ddiogel. Mae'n rhaid i atyniadau dan do aros ar gau a bydd hyn yn cael ei adolygu eto yr wythnos nesaf. Bydd esboniadau o'r Rheoliadau ar gael i osgoi unrhyw ddryswch.

Ochr yn ochr â'r camau hyn i lacio'r cyfyngiadau, a hefyd o 6 Gorffennaf, bydd pobl o ddwy aelwyd ar wahân yn cael ymuno i ffurfio un aelwyd estynedig. Bydd hwn yn drefniant rhwng y ddwy aelwyd dan sylw yn unig, a fydd yn galluogi pawb yn yr aelwyd estynedig i ymddwyn fel pe baent yn byw fel un aelwyd unigol. Bydd hyn yn galluogi teuluoedd a ffrindiau i ddod at ei gilydd unwaith eto, i gael cyswllt corfforol ac aros yn nhai ei gilydd. Rydym yn gwneud hyn yn bennaf i fynd i'r afael â'r materion sylweddol sy'n gysylltiedig â llesiant ac iechyd meddwl pobl sydd wedi bod yn unig ac yn ynysig, yn ogystal ag i roi cymorth angenrheidiol i rieni sy'n gweithio a rhieni eraill gyda gofal plant anffurfiol, ac i gynorthwyo pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth ehangach.

I helpu i reoli lledaeniad coronafeirws, dim ond dwy aelwyd fydd yn cael dod ynghyd i ffurfio un aelwyd estynedig ar hyn o bryd. Pan fydd aelodau un aelwyd yn penderfynu pa aelwyd arall y maent eisiau uno â hi, bydd y trefniant hwn yn sefydlog am y dyfodol rhagweladwy. Os yw unrhyw aelod o'r aelwyd estynedig yn datblygu symptomau COVID-19, bydd angen i bob aelod o'r aelwyd estynedig hunanynysu hyd yn oed os nad ydynt yn byw gyda'i gilydd.

Mewn rhai achosion, yn enwedig mewn teuluoedd mawr neu mewn tai a rennir, gall hyn olygu gwneud dewisiadau anodd. Os bydd aelwydydd estynedig yn canolbwyntio ar y rhai hynny sydd angen y mwyaf o ofal a chymorth, rwy'n gobeithio y bydd y rhai

hynny sydd heb eu cynnwys, fel rhai aelodau o deuluoedd estynedig, yn deall ac yn adnabod pwysigrwydd blaenoriaethu'r unigolion sydd angen cymorth fwyaf. Yn anffodus, oherwydd nad yw'r feirws wedi diflannu, mae angen inni wynebu'r dewisiadau hyn gyda'n gilydd. Wrth ystyried y dewisiadau hyn rwy'n erfyn ar bobl i wneud y canlynol:

- Meddwl am bwy sydd angen cymorth a phwy fyddai'n manteisio fwyaf o greu aelwyd estynedig. Efallai y bydd angen mwy o gymorth ar rai nag ar eraill, neu efallai bod ganddynt fwy o anghenion.

- Meddwl am y risgiau. Pobl sy'n agored i niwed neu sy'n gwarchod eu hunain fyddai'n manteisio fwyaf o'r trefniadau hyn, ond mae angen deall a lliniaru'r risgiau ychwanegol (e.e. drwy gadw aelwydydd estynedig yn fychan).

- Meddwl am y canlyniadau. Os yw unrhyw un mewn aelwyd estynedig yn mynd yn sâl, bydd rhaid i bawb hunanynysu am 14 diwrnod. Bydd hyn yn cael mwy o effaith ar rai pobl nag ar eraill, ac mae angen meddwl am hyn yn ofalus.

Diolch i ymdrechion pawb dros y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld lleihad yn y nifer o achosion newydd o'r coronafeirws – ond nid yw wedi diflannu. Gwelwyd golygfeydd siomedig yn yr wythnos ddiwethaf lle bu pobl yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol a gadael symiau sylweddol o sbwriel ar hyd y lle. Nid ydym eisiau i nifer fach anghyfrifol o bobl beryglu'r rhyddid hwn yr ydym wedi gweithio mor galed i'w sicrhau.

Mae angen i bawb gymryd cyfrifoldeb personol i gadw pellter cymdeithasol a pharchu'r amgylchedd a'r canllawiau lleol wrth fwynhau'r rhyddid a ddaw o lacio'r cyfyngiadau, gan ein galluogi i deithio ar draws Cymru a'r DU.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i bawb am eu hymdrechion parhaus i fynd i'r afael â'r feirws hwn. Gyda'n gilydd gallwn Ddiogelu Cymru.

# SL(5)569 - Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn llywodraethu atebolrwydd dros fenthyciad myfyrwyr sydd gan fyfyrwyr llawnamser sy'n cael benthyciadau at gostau byw gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd 2020/2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o atebolrwydd benthyciwr dros fenthyciad at gostau byw o dan amgylchiadau penodol, gyda effaith o'r diwrnod ar ôl y dyddiad yr ystyrir bod ei addaliad cyntaf ar ei fenthyciad wedi ei gael.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg ar 31 Mai 2019, "Cyllid a chymorth i fyfyrwyr o'r UE a fydd yn astudio yng Nghymru yn 2020/21", a nododd fel a ganlyn:

"Bydd myfyrwyr o'r UE sy'n bwriadu astudio yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 yn gymwys i'r un ffioedd dysgu â myfyrwyr Cymru, a byddant yn gymwys i gael benthyciadau a/neu grantiau o Gyllid Myfyrwyr Cymru, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd sydd eisoes yn cael eu defnyddio.

Mae'r penderfyniad hwn yn parhau â'r polisi cyfredol a bydd myfyrwyr yn gymwys i gael cymorth hyd nes y gorffennant eu cwrs. Mae hyn yn berthnasol i bob opsiwn cyllid sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru i fyfyrwyr yng Nghymru y mae myfyrwyr o'r UE yn gymwys i'w gael. Mae'n cynnwys benthyciadau i dalu am ffioedd dysgu (i'r rheini sy'n byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ers tair blynedd), benthyciadau a grantiau cynhaliaeth (sydd ond ar gael i'r rheini sy'n byw yn y DU ers o leiaf tair blynedd), a rhai grantiau a lwfansau eraill.

Nid yw'r rheolau ar gyfer myfyrwyr o'r UE a fydd yn gwneud cais am le mewn prifysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 i ddilyn cwrs lle rhoddir cymorth i'r myfyrwyr wedi newid. Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn asesu'r ceisiadau hyn ar sail y meini prawf cymhwysedd, ac yn darparu benthyciadau a/neu grantiau yn y ffordd arferol. Bydd myfyrwyr o'r UE, neu aelodau o'u teuluoedd, yr asesir eu bod yn

gymwys i gael grantiau a/neu fenthyciadau yn parhau'n gymwys tra byddant yn astudio ar y cwrs hwnnw."

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Gorffennaf 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2020 Rhif 638 (Cy. 146)

## ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn llywodraethu atebolrwydd dros fenthyciad myfyrwyr sydd gan fyfyrwyr llawnamser sy'n cael benthyciadau at gostau byw gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd 2020/2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o atebolrwydd benthyciwr dros fenthyciad at gostau byw o dan amgylchiadau penodol, gydag effaith o'r diwrnod ar ôl y dyddiad yr ystyrir bod ei addaliad cyntaf ar ei fenthyciad wedi ei gael.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 638 (Cy. 146)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2020

*Gwnaed* *23 Mehefin 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *25 Mehefin 2020*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(2)(g), (3)(d) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2020.

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac mewn perthynas â darparu cymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad â Blwyddyn Academaidd 2020/2021.

---

(**1**) 1998 p. 30.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(2)(g) a (3)(d) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6), i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dehongli**

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "Atebolrwydd sydd heb ei Dalu" ("*Outstanding Liability*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 7;

ystyr "benthyciad at gostau byw" ("*loan for living costs*") yw benthyciad a geir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â Blwyddyn Academaidd 2020/2021 o dan Ran 6 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**1**) neu o dan Ran 8 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**2**) mewn cysylltiad â chwrs llawnamser;

ystyr "benthyciwr" ("*borrower*") yw person sydd wedi cael benthyciad at gostau byw;

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau ar 1 Medi, 1 Ionawr, 1 Ebrill neu 1 Gorffennaf yn y flwyddyn galendr y mae blwyddyn academaidd y cwrs o dan sylw yn dechrau ynddi, yn ôl a yw'r flwyddyn academaidd honno yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst ond cyn 1 Ionawr, ar neu ar ôl 1 Ionawr ond cyn 1 Ebrill, ar neu ar ôl 1 Ebrill ond cyn 1 Gorffennaf, neu ar neu ar ôl 1 Gorffennaf ond cyn 1 Awst, yn y drefn honno;

ystyr "Blwyddyn Academaidd 2020/2021" ("*Academic Year 2020/2021*") yw blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Gwerthu Benthyciadau Myfyrwyr 2008(**3**);

ystyr "Dyddiad Ad-dalu" ("*Repayment Date*") yw'r diwrnod ar ôl y dyddiad yr ystyrir bod ad-daliad cyntaf y benthyciwr ar ei fenthyciad wedi ei gael naill ai gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu gan Weinidogion Cymru, pa un bynnag yr ystyrir

---

(**1**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/191 (Cy. 42), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2019/424 (Cy. 98) o'r diwrnod cwblhau ("completion day") ymlaen (fel y diffinnir "completion day" gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 p. 1, adran 39(1) i (5)), O.S. 2019/1094, O.S. 2019/1192 (Cy. 209), O.S. 2020/142 (Cy. 25) ac O.S. 2020/143 (Cy. 26).

(**2**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/813 (Cy. 164), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2019/424 (Cy. 98) o'r diwrnod cwblhau ("completion day") ymlaen (fel y diffinnir "completion day" gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 p. 1, adran 39(1) i (5)), O.S. 2019/1094, O.S. 2019/1192 (Cy. 209), O.S. 2020/142 (Cy. 25) ac O.S. 2020/143 (Cy. 26).

(**3**) 2008 p. 10.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

iddo ei gael gyntaf (yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998(**1**));

mae i "Dyddiad Bodloni" ("*Satisfaction Date*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 9;

mae "Gweinidogion Cymru" ("*Welsh Ministers*") yn cynnwys unrhyw berson y mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo neu wedi dirprwyo eu swyddogaethau iddo o dan adran 23 o Ddeddf 1998(**2**) neu unrhyw berson y maent wedi trosglwyddo eu hawliau iddo o dan adran 9 o Ddeddf 2008; ac

mae i "Swm Penodedig" ("*Specified Amount*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 6.

**Y cymhwyster ar gyfer dileu**

**4.** Mae benthyciwr yn gymwys i gael y Swm Penodedig o'i Atebolrwydd sydd heb ei Dalu wedi ei ddileu o dan yr amgylchiadau a nodir yn rheoliad 5 ("yr Amgylchiadau").

**Yr Amgylchiadau**

**5.** Yr Amgylchiadau at ddibenion rheoliad 4 yw bod Gweinidogion Cymru yn ystyried, ar y Dyddiad Ad-dalu—

(a) nad yw'r benthyciwr wedi torri unrhyw rwymedigaeth a geir mewn unrhyw gytundeb ar gyfer benthyciad myfyriwr neu mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998;

(b) nad oes gan y benthyciwr gosbau, costau, treuliau neu ffioedd sydd heb eu talu mewn perthynas ag unrhyw fenthyciad o'r fath yn unol ag unrhyw gytundeb neu reoliadau o'r fath; ac

(c) nad yw'r benthyciwr wedi cael unrhyw o'i atebolrwydd i dalu mewn cysylltiad â benthyciad a gafwyd gan Weinidogion Cymru wedi ei ddileu (gan gynnwys dilead o £0.00) o dan ddarpariaethau—

(i) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2010(**3**);

---

(**1**) Ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn, penderfynir ar y dyddiad yr ystyrir bod ad-daliad benthyciwr wedi ei gael yn unol â rheoliad 17 o Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (O.S. 2009/470).

(**2**) Diwygiwyd adran 23 gan adran 146 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), O.S. 2002/808 ac O.S. 2010/1158.

(**3**) O.S. 2010/1704 (Cy. 164).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2011(**1**);

(iii) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2012(**2**);

(iv) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2013(**3**);

(v) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2014(**4**);

(vi) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2015(**5**);

(vii) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2016(**6**);

(viii) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2017(**7**);

(ix) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2018(**8**); neu

(x) Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2019(**9**).

**Y Swm Penodedig**

**6.** Y Swm Penodedig yw'r swm lleiaf o'r canlynol—

(a) £1,500; neu

(b) yr Atebolrwydd sydd heb ei Dalu.

**Yr Atebolrwydd sydd heb ei Dalu**

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), yr Atebolrwydd sydd heb ei Dalu yw'r cyfanswm yr ystyrir ei fod yn daladwy gan y benthyciwr ar y Dyddiad Ad-dalu mewn cysylltiad ag unrhyw fenthyciad at gostau byw, ond nid yw'n cynnwys unrhyw log sydd wedi cronni nac unrhyw gosbau, costau, treuliau neu ffioedd yr aed iddynt mewn cysylltiad ag unrhyw fenthyciad o'r fath.

---

(**1**) O.S. 2011/1654 (Cy. 189).
(**2**) O.S. 2012/1518 (Cy. 201).
(**3**) O.S. 2013/1396 (Cy. 135).
(**4**) O.S. 2014/1314 (Cy. 134).
(**5**) O.S. 2015/1418 (Cy. 142).
(**6**) O.S. 2016/48 (Cy. 20).
(**7**) O.S. 2017/489 (Cy. 102).
(**8**) O.S. 2018/818 (Cy. 166).
(**9**) O.S. 2019/1073 (Cy. 191).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) At ddibenion rheoliad 9, yr Atebolrwydd sydd heb ei Dalu yw'r cyfanswm yr ystyrir ei fod yn daladwy gan y benthyciwr ar y Dyddiad Bodloni mewn cysylltiad ag unrhyw fenthyciad at gostau byw, ond nid yw'n cynnwys unrhyw log sydd wedi cronni nac unrhyw gosbau, costau, treuliau neu ffioedd yr aed iddynt mewn cysylltiad ag unrhyw fenthyciad o'r fath.

(3) At ddibenion cyfrifo'r Atebolrwydd sydd heb ei Dalu ym mharagraffau (1) a (2), cyfrifir y swm yr ystyrir ei fod yn daladwy gan y benthyciwr yn unol â rheoliadau a wneir yn unol ag adran 22 o Ddeddf 1998(**1**).

**Dileu**

**8.** O dan yr Amgylchiadau yn rheoliad 5, rhaid i Weinidogion Cymru ddileu'r Swm Penodedig gydag effaith o'r Dyddiad Ad-dalu.

**9.** Os oes unrhyw un neu ragor o'r Amgylchiadau yn rheoliad 5 heb ei fodloni neu heb eu bodloni ar y Dyddiad Ad-dalu, ond ei fod yn cael ei fodloni neu eu bod yn cael eu bodloni ar ddyddiad diweddarach, caiff Gweinidogion Cymru ddileu'r Swm Penodedig gydag effaith o'r dyddiad y maent yn ystyried y cafodd yr Amgylchiadau eu bodloni ("y Dyddiad Bodloni").

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
23 Mehefin 2020

(**1**) Ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn penderfynir ar y swm yr ystyrir bod benthyciwr wedi ei ad-dalu ac felly'r swm yr ystyrir ei fod yn dal yn daladwy yn unol â Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 (O.S. 2009/470). Gweler yn benodol reoliadau 17, 29, 44 ac 76.

**Explanatory Memorandum to the Cancellation of Student Loans for Living Costs Liability (Wales) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Higher Education Division and is laid before the Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Cancellation of Student Loans for Living Costs Liability (Wales) Regulations 2020.

Kirsty Williams MS
Minister for Education

25 June 2020

## 1. Description

These Regulations provide for up to £1,500 of a full-time undergraduate student's living costs loan (also known as a maintenance loan) for academic year 2020/2021, to be cancelled in certain circumstances. The cancellation will take effect from the day after the date on which the student's first loan repayment is received.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

None.

## 3. Legislative background

These Regulations are made by the Welsh Ministers in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 22(2)(g), (3)(d) and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998 ("THEA") and which are now exercisable by them in relation to Wales.

Section 44 of the Higher Education Act 2004 transferred the relevant functions of the Secretary of State under section 22 of THEA to the National Assembly for Wales established by the Government of Wales Act 1998. The functions of the Secretary of State under section 42(6) of THEA were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. All of these functions were then transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraphs 30(1) and 30(2)(c) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

Undergraduate students who receive a living costs loan from the Welsh Ministers in academic year 2020/2021 will do so under the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017 (S.I. 2017/47 (W. 21)) or the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 (S.I. 2018/191 (W. 42)), depending on when their course starts.

Provisions relating to the repayment of living costs loans are contained in the Education (Student Loans) (Repayment) Regulations 2009 (SI 2009/470), (as amended) which are made on a composite basis by the Welsh Ministers and the Secretary of State under sections 22 and 42 of THEA and sections 5 and 6 of the Sale of Student Loans Act 2008.

This instrument will follow the Negative Resolution procedure.

## 4. Purpose & intended effect of the legislation

These Regulations make provision for students, who receive a living costs loan from the Welsh Ministers for academic year 2020/21 in respect of a full-time

undergraduate course, to benefit from a reduction in the balance of their loan of up to £1,500 when they start repaying their loan. This will not be in the form of a cash lump sum; rather the balance of an individual's loan will be reduced by the appropriate amount the day after a borrower's first repayment is made.

A student can only receive a partial cancellation once; they cannot receive a partial cancellation in respect of academic year 2020/21 if they have already received a cancellation in respect of any previous academic year. A student will not be entitled to a partial cancellation if there are any outstanding charges or penalties or if they are in breach of their loan agreement or any regulations made under section 22 of THEA.

## 5. Consultation

No consultation has been undertaken as these Regulations are technical in nature and simply update the academic year for which this scheme will operate.

## 6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

An RIA has not been conducted for these Regulations as the changes relate to technical amendments that are necessary to update the applicable academic year.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliad (UE) Rhif 2018/1724 Rheoliadau Rheoliad y Porth Digidol Unigol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **3 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Rheoliad y Porth Digidol Unigol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2020**

**Trosolwg Polisi o'r OS**

Rheoliad UE 2018/1724 – Bwriedir i'r Porth Digidol Unigol ddarparu porth i ddinasyddion a busnesau allu cael mynediad hawdd at wybodaeth, gweithdrefnau a gwasanaethau cymorth effeithiol marchnad fewnol yr UE.

Mae'r rheoliad yn sefydlu Porth Digidol Unigol fydd yn rhoi mynediad i'r canlynol,

- Gwybodaeth am hawliau, rhwymedigaethau a rheolau
- Gwybodaeth am weithdrefnau ar-lein ac all-lein a chysylltiadau â gweithdrefnau ar-lein
- Gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth a'r cysylltiadau â hwy

Erbyn 11 Rhagfyr 2020, rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad hawdd, ar-lein, ar eu tudalennau gwe Cenedlaethol i'r canlynol;

- Gwybodaeth am yr hawliau, y rhwymedigaethau a'r rheolau hynny sy'n deillio o'r gyfraith genedlaethol.

- Gwybodaeth am y gweithdrefnau hynny sy'n cael eu sefydlu ar lefel genedlaethol.
- Gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth hynny a ddarperir ar lefel genedlaethol.

Mae dau gam pellach yn y broses weithredu isod sydd y tu allan i'r cyfnod pontio.

- Rhagfyr 2022: darparu gwybodaeth a chymorth a gwasanaethau datrys problemau ar hawliau a rheolau marchnad fewnol yr UE ar lefel awdurdod lleol (Atodiadau I a III)
- Rhagfyr 2023: digidoleiddio 21 o weithdrefnau 'digwyddiadau bywyd' gweinyddol a gweithrediad yr egwyddor Unwaith yn Unig. Mae'r gweithdrefnau 'digwyddiad bywyd' yn cynnwys cofrestriadau genedigaethau a marwolaethau, gwneud cais am grant astudio a hawlio pensiwn. Byddai'r system unwaith yn unig yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus eraill ailddefnyddio manylion defnyddwyr y Porth ar draws ffiniau fel nad oes angen i ddefnyddwyr nodi eu manylion bob tro y byddant yn defnyddio'r Porth (Atodiad II)

Bwriad yr offeryn statudol hwn yw diddymu Rheoliad UE 2018/1724 er mwyn sicrhau nad oes rhaid i'r DU a Chymru gydymffurfio â safonau mewnol yr UE a therfynau amser yr UE ar gyfer gweithredu sydd y tu allan i'r cyfnod pontio. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'r DU a Chymru ddatblygu systemau a safonau yn annibynnol ar yr UE.

Mae'r offeryn statudol hwn hefyd yn diddymu Rheoliad (UE) 1024/2012 ar gydweithrediad gweinyddol drwy System Gwybodaeth y Farchnad Fewnol ac yn diddymu penderfyniad y Comisiwn 2008/49/CE ('y Rheoliad IMI'), i hepgor paragraff 12 o'r Atodiad sy'n cyfeirio at Reoliad UE 2018/1724.

**Rheoliad (UE) 2018/1724 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 2 Hydref 2018 yn sefydlu porth digidol unigol i ddarparu mynediad at wybodaeth, gweithdrefnau a chymorth a gwasanaethau datrys problemau**

**Diben y gwelliannau**

Diben y gwelliannau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â gweithredu Porth Digidol Unigol. Mae'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob gwelliant, ar gael yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-single-digital-gateway-regulation-revocation-eu-exit-regulations-2020

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Llywodraeth y DU yn haeru bod yr OS hwn yn cael ei gwmpasu gan Baragraff 10(2) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol gan gynnwys cysylltiadau â'r UE a'i sefydliadau. Mae wedi cymryd y

farn hon oherwydd bod diben Rheoliad yr UE yn ymwneud â rhannu gwybodaeth rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE, ac Aelod-wladwriaethau'r UE a'r Comisiwn ar lefel yr UE, h.y. y berthynas rhwng y DU, fel Aelod-wladwriaeth, a'r UE a'i sefydliadau.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r asesiad hwn. Byddai defnyddio'r cyfiawnhad hwn yn gwneud holl Offerynnau Statudol Ymadael â’r UE yn fater a gedwir yn ôl a byddai'n golygu bod y Cytundeb Rhynglywodraethol (IGA) sy'n ymwneud â Deddf yr UE (Ymadael) 2018 yn darfod. Mae diben ehangach Rheoliad y Porth Digidol Unigol yn ymwneud â mynediad dinesydd at wybodaeth gyhoeddus a llywodraethol, y mae rhywfaint ohoni’n yn perthyn yn glir i feysydd pwnc datganoledig (iechyd, addysg etc.). Mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ddeddfu ar ddarparu mynediad at wybodaeth, gweithdrefnau, cymorth a gwasanaethau datrys problemau i ddinasyddion a busnesau ynghylch chyfreithiau cenedlaethol datganoledig a gofynion gweinyddol.

**Unrhyw effaith y gallai’r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**

Nid oes gan yr OS unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Bu gan y Senedd erioed bwerau i ddeddfu ar ddarparu gwybodaeth yn ddigidol mewn meysydd datganoledig, y tu hwnt i'r safonau gofynnol o ran cwmpas a chynnwys a nodir o dan Reoliad y Porth Digidol Unigol. Mae'r offeryn statudol hwn yn dileu gofyniad safon ofynnol yr UE ac yn galluogi Cymru i lunio ei gofynion sylfaenol ei hun i ddiwallu anghenion dinasyddion a busnesau.

**Paham y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer cywiro. Felly, byddai gwneud offerynnau statudol ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen o ran y llyfr statud. Mae cydsynio i offeryn statudol ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**162 - Rheoliad (UE) Rhif 2018/1724 Rheoliadau Rheoliad y Porth Digidol Unigol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 1 Gorffennaf 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 14 Gorffennaf 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 20 Gorffennaf 2020 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 21 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

Mae Rheoliad (UE) 2018/1724 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 2 Hydref 2018 yn sefydlu un porth digidol i ddarparu mynediad at wybodaeth, gweithdrefnau, ac at wasanaethau cymorth a datrys problemau, a diwygio Rheoliad (UE) 1024/2012 ("Rheoliad y Porth Digidol Unigol"), yn Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n uniongyrchol berthnasol. Bydd rhai o ddarpariaethau Rheoliad y Porth Digidol Unigol yn gyfystyr â chyfraith yr

UE a ddargedwir yn unol ag adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Rheoliad y Porth Digidol Unigol yn darparu mynediad ar-lein at y wybodaeth, y gweithdrefnau gweinyddol a'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen ar ddinasyddion a busnesau i fyw mewn gwlad arall yn yr UE neu i gynnal busnes mewn gwlad arall yn yr UE. Mae'n darparu ar gyfer creu un pwynt mynediad at y we i'r UE, sef "y Porth", a fydd yn cysylltu gwefannau a phyrth yr UE a rhai cenedlaethol, ac yn darparu gwybodaeth i unigolion a busnesau sy'n ymwneud â hawliau a rheolau'r Farchnad Sengl.

Mae Rheoliad y Porth Digidol Unigol yn gymwys yn gyfan gwbl o fewn Marchnad Sengl yr UE ac felly mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU ar gyfer y Rheoliadau hyn yn nodi (ym mharagraff 7.1) na fyddai er budd y DU i gael ei rhwymo gan Reoliad y Porth Digidol Unigol unwaith y bydd y Cyfnod Trosglwyddo wedi dod i ben, pan fydd y DU yn peidio â bod yn rhan o'r Farchnad Sengl. Diben yr offeryn hwn, felly, yw dirymu'r darpariaethau hynny yn Rheoliad y Porth Digidol Unigol a fydd yn gyfystyr â chyfraith yr UE a ddargedwir ar 31 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny, fel nad yw'r Deyrnas Unedig bellach wedi'i rhwymo'n gyfreithiol gan Reoliad y Porth Digidol Unigol unwaith y bydd y Cyfnod Trosglwyddo yn dod i ben.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliad (EU) 1024/2012 ar gydweithrediad gweinyddol drwy System Wybodaeth y Farchnad Fewnol ac yn diddymu Penderfyniad y Comisiwn 2008/49/EC ('Rheoliad System Wybodaeth y Farchnad Fewnol'), i hepgor paragraff 12 o'r Atodiad, sy'n cyfeirio at Reoliad UE 2018/1724.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 3 Gorffennaf 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn, gan gynnwys casgliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Eitem 6.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **08 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**SO30C – Hysbysiad mewn Perthynas ag Offeryn Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 na chawsant eu gosod gerbron y Senedd**

**Trosolwg Polisi o'r OS**

Bydd y Rheoliadau'n sicrhau bod y fframweithiau Ymadael â'r UE ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol (RPQ) a darpariaeth gwasanaethau yn gweithredu'n effeithiol ar ôl y cyfnod pontio a gwneud mân gywiriadau eraill.

Hefyd mae'r rheoliadau'n cynnwys darpariaethau eraill a wneir yn unol â phwerau Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Gwelir eglurhad o'r darpariaethau hyn yn yr Atodiad i'r Datganiad Ysgrifenedig hwn, er gwybodaeth.

**Cyfraith [yr UE a ddargedwir] a gaiff ei diwygio**

Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Hawliau cytuniad penodol uniongyrchol effeithiol sy'n gysylltiedig â chydnabod cymwysterau proffesiynol ac sy'n rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir yn rhinwedd adran 4 o Ddeddf (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd 2018

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion yng nghyfreithiau'r UE a ddargedwir sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol. Er mwyn sicrhau y bydd fframweithiau Ymadael â'r UE ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol (RPQ) a gwasanaethau yn gweithredu fel y bwriadwyd ar ôl y Cyfnod Pontio, bydd yr OS yn gwneud darpariaethau i ddatgymhwyso agweddau a ddargedwir o gyfraith yr UE (hawliau cytuniad uniongyrchol effeithiol) ac yn gwneud amrywiol ddiwygiadau i Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE blaenorol, sef Rheoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018 a Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

**Datgymhwyso hawliau cytuniad uniongyrchol effeithiol**

Gall yr hawliau uniongyrchol effeithiol y cyfeirir atynt yn yr offeryn hwn fod yn anghyson â hawliau a geir o dan ddeddfwriaeth Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Ymadael â'r UE) gan alluogi'r posibilrwydd i weithwyr proffesiynol osgoi gweithdrefnau sefydlog wrth ymgeisio am gydnabyddiaeth o'u cymwysterau proffesiynol. Bydd yr offeryn hwn yn datgymhwyso hawliau cydnabod cymwysterau proffesiynol sy'n deillio o ddarpariaethau'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) a Chytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (y Cytundeb EEA) sy'n ymwneud â rhyddid gweithwyr i symud (Erthygl 45 TFEU ac Erthygl 28 o'r Cytundeb EEA). Bydd yr offeryn hwn yn datgymhwyso hefyd unrhyw hawliau uniongyrchol effeithiol a ddargedwir sy'n deillio o Erthygl 9 ac Atodiad 3 o'r Cytundeb Swisaidd ar Ryddid Pobl i Symud (FMOPA). Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau eglurder cyfreithiol a chynnal cyfanrwydd fframwaith cydnabod y DU ar ôl y cyfnod pontio.

Hefyd mae'n angenrheidiol datgymhwyso unrhyw hawliau uniongyrchol effeithiol sy'n ymwneud â thegwch o ran y modd y defnyddir y datgymhwyso mewn perthynas â hawliau'r Cytuniad RPQ hyn, er mwyn atal unigolion rhag dibynnu ar yr hawliau hyn er mwyn herio'r datgymhwysiad hwn a sicrhau eglurder cyfreithiol.

**Diwygiadau Amrywiol**

Ar ôl y cyfnod pontio, ni fydd y Gyfarwyddeb Gwasanaethau bellach yn berthnasol yn y DU nac i fusnesau EEA neu unigolion sy'n darparu gwasanaethau yn y DU. Felly, diwygiwyd Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009 gan Reoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018 ("Rheoliadau'r Gwasanaethau") er mwyn datrys diffygion yn codi yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Ni ddrafftiwyd y Rheoliadau Gwasanaethau i gynnwys cyfnod pontio; felly rhaid eu diwygio er mwyn newid y cyfeiriadau yng nghorff y testun o "diwrnod ymadael" i "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu".

Gwneir diwygiadau technegol tebyg i gyfeiriadau at "ddiwrnod ymadael" hefyd i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n nodi effaith pob diwygiad ar gael yma:
https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/4colMQjV/SI-2020/

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Gan fod rheoliadau proffesiynau penodol wedi eu datganoli, gofynnwyd am gydsyniad Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn. Nid oes trosglwyddo pwerau o ganlyniad i'r rheoliadau.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Nid oes gan yr OS unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen. Trwy gydsynio i OS ledled y DU ceir un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Atodiad

**Diwygiad i Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972**

Bydd yr offeryn hwn yn cywiro hefyd gamgymeriad trawsosod yn Rheoliadau 2015 sydd angen ei unioni tra bo'r DU yn parhau'n ddarostyngedig i gyfraith yr UE.

Diwygiad 'busnes fel arfer' yw hwn. Nid yw wedi ei fwriadu i gywiro diffyg mewn cyfraith yr UE a ddargedwir.

**Diwygiadau i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a deddfwriaeth arall sy'n benodol i'r sector o dan adran 12 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020**

Mae'r offeryn hwn yn rhoi ar waith mewn cyfraith ddomestig ddarpariaethau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol ("RPQ") yng Nghytundeb Ymadael â'r UE, Cytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion Swisaidd (gyda'i gilydd, "y Cytundebau"), na chânt eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth gyfredol RPQ Ymadael â'r UE.

Gwneir hyn trwy ddiwygio Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a deddfwriaeth RPQ arall sy'n benodol i'r sector, sef Rheoliadau Pedolwyr ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a'r Rheoliadau Milfeddygon a Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

Gofynnwyd am gydsyniad Gweinidogion Cymru gan fod y diwygiadau yn gysylltiedig â phroffesiynau y mae'r gwaith o'u rheoli wedi ei ddatganoli.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi eu cydsyniad i wneud y diwygiadau hyn dan yr amgylchiadau sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran polisi ar gyfer y diwygiadau. Felly, byddai gwneud Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**163 – Rheoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 6 Gorffennaf 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Nac oes |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 23 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Cynigir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972; adran 8(1) a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, (“Deddf 2018”); ac adrannau 12, 14 a 41(1) a pharagraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymgorffori i'r gyfraith ddomestig y darpariaethau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn y Cytundeb Ymadael â’r UE, Cytundeb Gwahanu yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop, a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir, nad ydynt yn dod o dan ddeddfwriaeth bresennol yr UE ar gyfer Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol.

At hynny, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud newidiadau i'r fframweithiau domestig ar gyfer Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gwasanaethau, fel a ganlyn: datgymhwyso rhai hawliau sy'n uniongyrchol effeithiol yng nghytuniadau'r UE sy'n ymwneud â Chydnabod Cymwysterau Proffesiynol a dirymu tri darn o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a fyddai fel arall yn cael eu cadw mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adrannau 4 a 3 o Ddeddf 2018 yn y drefn honno; gwneud cywiriadau i ddeddfwriaeth cydnabod cymwysterau proffesiynol yng nghyd-destun Ymadael â'r UE; newid rhai cyfeiriadau at y 'diwrnod ymadael' i gyfrif am y Cyfnod Pontio mewn amryw ddarnau o ddeddfwriaeth ynghylch Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gwasanaethau yng nghyd-destun Ymadael â'r UE; a chywiro gwall trosi yn Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 8 Gorffennaf 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Fodd bynnag, nodir bod y datganiad yn cyfeirio at yr offeryn fel Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020, yn hytrach na Rheoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Diwygio a Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 (pwyslais wedi'i ychwanegu).

Mae'r datganiad hefyd yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn dau achos, yn hytrach na Senedd Cymru.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Mick Antoniw MS Chair of the
Legislation, Justice and Constitution
Committee
By email
Mick.Antoniw@senedd.wales
**URGENT**

Friday 03 July 2020

Dear Chair,

**Subject: Scrutiny of Welsh Government regulations and compliance with the Public Sector Equality Duty: Standing order 21.3C (iv)**

Your committee provides a vital role in scrutinising legislation laid before the Senedd. We are particularly grateful that you have recently highlighted the requirement to justify interference with human rights when Welsh Government is publishing subordinate legislation in response to the Coronavirus pandemic.

However, we have been concerned that Welsh Government is not complying with the Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011 when

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes,
Caerdydd, CF14 4YJ

Block 1, Spur D, Government Buildings, St Agnes Road,
Cardiff, CF14 4YJ

**equalityhumanrights.com**

publishing subordinate legislation. In particular regulation 8 which requires that equality impact assessments are published with regulations.

We would ask that you consider reporting on this issue when you consider your merit scrutiny and standing order 21.3C (iv).

We think this is particularly relevant to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020 and are aware that you are due to report on them by 10th July 2020.

I am happy to discuss this matter further or to meet with you if you would find it helpful. My email address ruth.coombs@equalityhumanrights.com.

Yours sincerely,

Ruth Coombs

Rev Ruth Coombs

Head of Wales

EHRC Wales | EHRC Cymru

Cc SeneddLJC@senedd.wales legislation@senedd.wales

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes,
Caerdydd, CF14 4YJ

Block 1, Spur D, Government Buildings, St Agnes Road,
Cardiff, CF14 4YJ

**equalityhumanrights.com**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
—
Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

03 Gorffennaf 2020


Annwyl Mick

**Llythyr gan Sue McAllister, yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth: gofal diwedd oes mewn carchardai**

Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, rwyf wedi cael llythyr gan Sue McAllister, yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth, i fynegi ei phryderon ynghylch gofal diwedd oes mewn carchardai.

Yn ystod ein cyfarfod ddoe, cytunodd Aelodau i rannu copi o'r llythyr hwn â'ch Pwyllgor chi, oherwydd mae'n bosibl y bydd o ddiddordeb i chi yng nghyd-destun eich ymchwiliad, sef 'gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru'. Mae copi o'r llythyr ynghlwm.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565

Prisons & Probation Ombudsman
Independent Investigations

**Sue McAllister CB**
Prisons and Probation Ombudsman

Health, Social Care and Sport Committee
Welsh Parliament
**BY EMAIL**

23 June 2020

Dear Health, Social Care and Sport Committee

I have recently been contacted by the Commons Justice Select Committee at the UK Parliament to provide written evidence for their inquiry into the ageing prison population. In my evidence about end of life care in prisons, I referred to an investigation we carried out into a death in custody at HMP Parc. As we have provided this evidence to the Commons Justice Select Committee I thought that it was also appropriate to share the same evidence with you.

Following an investigation into a death in custody at HMP Parc in August 2019 we raised some concerns about the care provided. The individual suffered from dementia and was referred for assessment, however there was disagreement with the Local Health Board as to who was funded to assess and provide support. The Local Health Board failed over a period of years to reach a solution to enable the individual to access appropriate specialist care for dementia. We recommended that discussions took place with the Local Health Board to ensure that patients with suspected dementia at HMP Parc have access to full service provisions. We are waiting for confirmation as to whether these discussions have taken place.

We would also like to take this opportunity to raise our concerns about the length of time it takes for inquests to be held in Wales. As an example, there was a death in a Secure Children's Home in Wales in February 2017 and we are still waiting for notification of an inquest date. There was also a death in custody that occurred at HMP Swansea in March 2014 and the inquest only concluded in February 2020. These are quite significant delays that are causing upset to bereaved families.

Please get in touch if you require any additional information.

Yours sincerely

**Sue McAllister CB**
Prisons and Probation Ombudsman

Cc Healthcare Inspectorate Wales

Third Floor, 10 South Colonnade,
Canary Wharf, London E14 4PU
Email: mail@ppo.gov.uk T | 020 7633 4100
Web: www.ppo.gov.uk F | 020 7633 4141

Ministry of Justice

**Alex Chalk MP**
Parliamentary Under-Secretary of State for Justice

Mick Antoniw MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardif Bay
Cardiff
CF99 1SN

**MoJ ref:** ADR79396

7 July 2020

Dear Mick,

**INQUIRY INTO MAKING JUSTICE WORK IN WALES – DATA ON ACCESS TO JUSTICE**

Thank you for your letter of 19 June to the Lord Chancellor, regarding the inquiry into Making Justice work in Wales and in particular, user needs for Welsh justice data.

As you have noted, the Justice in Wales Working Group recommended that we should undertake a review of how data collection and publishing practices reflect the distinctiveness of Wales, where possible disaggregating data to give a clear picture of how justice in Wales functions. Disaggregation of Welsh data is a matter that we have been seeking to resolve for some time, particularly the challenges involved in categorising Welsh individuals in the justice system, but I am pleased to say that we have made considerable progress.

HMCTS in Wales currently collects data on existing legacy Case Management Systems at Court and Tribunal venue level for all jurisdictions. This data can be aggregated at a local reporting level e.g. Local Justice Area or Local Family Justice Board areas, and then summarised in a top level HMCTS Wales data set, which can be used in Wales for performance monitoring against workloads and all Key Performance measures. The Ministry of Justice aggregate the data for the Office for National Statistics, which are released Quarterly.

When considering changes to the court and tribunal estate, HMCTS will always assess local data for a particular court and the surrounding area. They will consider the workload and operating costs of the court but also, through an equalities assessment, local populations and their characteristics. They will assess local journeys to court by public transport to make sure that any likely future journeys meet HMCTS' access to justice principles.

Legal Aid Provider Statistics provide legal aid data at national/regional level, so data for Wales can be isolated from the overall data for England and Wales. This is based on the provider location, not the client location. The published statistics give the type of work undertaken, covering both civil and crime billing data for completed claims. This dataset includes data from 2011/12 onwards.

**T** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753
**E** https://contact-moj.dsd.io/
www.gov.uk/moj
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

With respect to family justice, we publish data at a regional level, which can be found here: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/895002/Family_Data_2020_Q1.zip](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/895002/Family_Data_2020_Q1.zip). This data set includes:

- The number of cases started/finishing by region and by case type (with 'count' referring the number of applications/orders etc depending on the start/end selection)
- The timeliness by region and case type and legal representation status (note that those without representation are where representation isn't recorded, rather than specifically being litigants in person)

Whilst your request does not cover prisons and probation, I thought you would find it helpful to know that HMPPS currently provides published statistics on how offender management services in the community and in custody are delivered. These statistics include key statistics relating to offenders, staff and performance against agreed service levels and measures. Where possible, for prisons, the statistics are disaggregated to the establishment level, including prisons in Wales. Similarly, statistical publications relating to community supervision are disaggregated to a regional level, including Wales. A narrative account of HMPPS in Wales, reflecting the devolved structure of the organisation and activities is provided in HMPPS Annual Report and Accounts.

One important development this year, however, has been the funding announced by Administrative Data Research to the Ministry of Justice for the Data First project. This work will provide a platform to link together data from across the justice system to help our understanding of people's experiences, including people from Wales, and will also provide greater secure access to data for researchers in Wales.

I hope this information is helpful and I would be happy to answer any follow up questions you may have in relation to the inquiry.

Thank you again for getting in touch.

Yours sincerely,



**ALEX CHALK MP**

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 12

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 13

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 14

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon